

**GWYNEDD**

**CYNLLUN STRATEGOL CEFNOGI POBL  
2015 – 2018**

**CEFNOGI POBL  
CEFNOGI ANNIBYNIETH**



## CYNNWYS

### TUDALEN

RHAGAIR

4

### 1. BLAENORIAETHAU STRATEGOL

Themâu sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, Cynllun Integredig Sengl, Diogelwch Cymunedol, Cynlluniau Cydraddoldeb, Digartrefedd a Chynlluniau strategol eraill.

5

### 2. GWEITHREDU EFFEITHLONRWYDD AR LEFEL LEOL

Beth sy'n cael ei wneud i gyflawni effeithlonrwydd a sut ydym ni'n parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau ataliol a rheng flaen.

14

### 3. ANGEN, CYFLENWAD A BYLCHAU YN Y GWASANAETH

Crynodeb byr o sut mae tystiolaeth empeiraidd yn siapio datblygiadau gwasanaeth.

15

### 4. FFRAMWAITH DEILLIANNAU CENEDLAETHOL

Trosolwg cryno o'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol a gweithrediad lleol.

17

### 5. YMGYNGHORI

Gwybodaeth a gasglwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill.

20

### 6. BLAENORIAETHAU'R DYFODOL

Manylion grwpiau defnyddwyr gwasanaeth sy'n flaenoriaeth.

26

### 7. CYFLUNIO'R GWASANAETH

Cynigion am ddatblygu gwasanaeth, dad-gomisiynu ac ail-fodelu gan gynnwys manylion ar

- model darparu gwasanaeth
- nifer yr unedau
- grwpiau defnyddwyr sydd ag anghenion sy'n cael eu diwallu

27

### 8. ASESAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Crynodeb o ymarferiad sgrinio cydraddoldeb ac asesiad o effaith y newidiadau gwasanaeth ar bob haen cydraddoldeb.

27

## 9. CYNLLUN GWARIANT

Y cynllun gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod.

30

### **Atodiad 1**

Crynodeb o'r Ddarpariaeth Gefnogi Bresennol, Bwriadau Ailfodelu, Comisiynu a Dad-gomisiynu.

### **Atodiad 2**

Crynodeb o Ddeilliannau i'r Rhai Sy'n Gadael y Gwasanaeth (Gwasanaeth yn Dod i Ben)

# RHAGAIR

Prif bwrpas y rhaglen Cefnogi Pobl yw helpu pobl i barhau mor annibynnol â phosib drwy ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel yn ymwneud â thai. Mae'r rhaglen yng Ngwynedd yn parhau i weithio tuag at atal digartrefedd. Er hynny, rydym yn wynebu toriadau digynsail mewn cyllid ac eisoes wedi gweld y cyllideb yn lleihau o £6.3m i £5.6m. Mae'r gostyngiad yn y cyllid a newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth angen ailystyriaeth sylfaenol o rhai gwasanaethau ac rydym yn ymrwymedig i wneud hyn mewn modd agored a thryloyw, mewn ymgynghoriad â Darparwyr Gwasanaeth.

Mae'r ddogfen hwn yn disodli Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2013 - 2015 ac yn rhoi crynodeb o'r bwriadau strategol am y ddwy flynedd nesaf. Bwriad y ddogfen hon yw rhoi fel crynodeb yn unig ac nid yw'n ddadansoddiad cyflawn o ddata a thystiolaeth.

Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd Cefnogi Pobl ac mae'r cynllun hwn yn amlygu'r cysylltiadau i waith Partneriaethau Strategol eraill sy'n cynnwys y Cyngor ac asiantaethau Partner eraill. Mae'n adlewyrchu ac yn ymateb i flaenoriaethau sy'n ymwneud â thai ym meysydd Digartrefedd, Gofal Cymdeithasol, Iechyd, Cyfiawnder Troseddol a Diogelwch Cymunedol.

Wrth ddatblygu ein gweledigaeth a gosod ein blaenoriaethau rydym wedi ystyried yr ymateb i gynlluniau blaenorol, y newidiadau i'r system les, Bil Tai Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y Papur Gwyn ar Rentu Cartrefi, y Cynllun Digartrefedd Deg Mlynedd 2009 - 2019, cyfeiriad gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r hinsawdd economaidd gyfredol.

Rydym yn parhau i weithio mewn cyfnod heriol ac felly dylid ystyried y cynllun yn ddogfen weithiol y bydd posib ei haddasu mewn ymateb i anghenion sy'n newid a gofynion ariannol.

Mae Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Gwynedd yn croesawu mewnbwn gan yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a budd-ddeiliaid eraill a byddem yn hapus i dderbyn sylwadau am y rhaglen er mwyn ein helpu ni i ddarparu rhaglen sy'n gwella'n barhaus.

Arwel Wyn Owen  
Cyngor Gwynedd  
Uwch Reolwr Tai  
Cadeirydd Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl

## 1. BLAENORIAETHAU STRATEGOL

## Trosolwg

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cymorth sy'n ymwneud â thai i helpu pobl fregus fyw mor annibynnol â phosib a'u hatal rhag dod yn ddigartref.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £5.6 miliwn (2014 / 15) yn y Rhaglen Cefnogi Pobl Gwynedd. Yn ystod 2013 / 14, cefnogodd y rhaglen dros 2000 o bobl fregus i dderbyn a chynnal llety dros dro yn ogystal â llety parhaol, ac i fyw mor annibynnol â phosib. Nod y rhaglen yw helpu pobl i gadw neu gynnal eu llety gan ddarparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai mor fuan â phosib. Ethos Cefnogi Pobl yw galluogi pobl i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol ac felly mae'r gefnogaeth yn defnyddio ddull 'gwneud gyda' yn hytrach na dull 'gwneud dros'.

Mae'r rhaglen yn cefnogi ystod o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth bregus e.e. aelwydydd sy'n dianc rhag trais yn y cartref, pobl sydd mewn perygl o, neu sy'n goresgyn, bod yn ddigartref, pobl gydag anghenion iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau, pobl ifanc sydd angen cefnogaeth, pobl hŷn sydd mewn llety gwarchod neu bobl sydd ag anabledd dysgu.

## Gweledigaeth Strategol Cefnogi Pobl

Helpu pobl i ganfod a chadw cartref sy'n bodloni eu hanghenion, yn ogystal ag annog annibyniaeth mewn amgylchedd iach a diogel.

## Nodau

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn ceisio:

- helpu pobl fregus i fyw mor annibynnol â phosib
- rhoi'r help sydd ei angen ar bobl er mwyn iddynt allu byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn hosteli, tai gwarchod neu mewn tai arbenigol eraill
- atal problemau yn y lle cyntaf, neu rhoi help mor fuan â phosib er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau eraill megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r system gyfiawnder
- rhoi help i gyd-fynd â'r gofal personol neu feddygol y bydd rhai pobl ei angen
- rhoi'r rhai sydd angen cefnogaeth wrth galon y rhaglen
- sicrhau gwasanaethau o safon uchel, sy'n cael eu darparu mor effeithlon ac effeithiol â phosib trwy gydweithio rhwng sefydliadau sy'n cynllunio ac yn ariannu gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau
- darparu cyllid ar gyfer cefnogaeth yn seiliedig ar yr angen
- hybu cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau.

## Cyfeiriad Strategol

Mae'r cyfeiriad strategol yn cael ei arwain gan y Cynllun Integredig Sengl drafft ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, sy'n ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Lleol y ddwy sir – ***Cynllun Integredig Sengl 2013 – 17*** drafft.

Mae'r ddogfen newydd yn disodli nifer o wahanol fentrau partneriaeth o'r ddwy sir, sef:

- Gwella Gwynedd ar y Cyd – Strategaeth Gymunedol Gwynedd
- Cynllun Plant a phobl Ifanc
- Strategaeth Iechyd, Gofal a Lles
- Cynllun Diogelwch Cymunedol

Mae hon yn cael ei chyfarwyddo a'i chefnogi gan strategaethau allweddol eraill sydd â blaenoriaethau trawsbynciol sy'n effeithio ac yn siapiro darpariaeth y rhaglen Cefnogi Pobl:

- ***Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd 2013 – 17***
- ***Strategaeth Ddigartrefedd Gwynedd 2010 - 13***

Mae'r nodau strategol yn y Cynllun Strategol Cefnogi Pobl wedi'u cysylltu â'r Strategaethau hyn ac yn seiliedig ar themâu a rennir ac sy'n parhau i ymddangos ac sy'n gweithio tuag at fynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u hadnabod yn y ***Cynllun Integredig Sengl 2013 – 17*** drafft fel a ganlyn:

### **Cymunedau Llewyrchus**

- Plant a phobl ifanc yn derbyn cefnogaeth effeithiol i gyflawni eu potensial
- Cymunedau yn gweithio â'i gilydd i gefnogi unigolion sydd mewn angen
- Pobl â sgiliau perthnasol i sicrhau cyflogaeth
- Pobl sydd mewn angen yn ariannol yn derbyn cymorth a chynghor da
- Yr iaith Gymraeg yn ffynnu.

### **Cymunedau Iach**

- Pobl yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn iach ac yn egniol
- Cymunedau yn fwy annibynnol ac yn gallu gofalu am eu lles eu hunain
- Plant a theuluoedd yn derbyn ymyrraeth gynnar i fodloni eu hanghenion
- Oedolion yn byw yn annibynnol o fewn eu cymunedau

### **Cymunedau Diogel**

- Gall rhai sydd wedi dioddef trais yn y cartref fod yn hyderus y byddent yn derbyn cymorth ac ymateb priodol pan fyddent ei angen.
- Mae Trais yn y Cartref yn derbyn sylw priodol yn ein cymunedau fel trosedd annerbyniol.
- Cefnogaeth a gwasanaethau ar gael i bobl sy'n camddefnyddio alcohol ac / neu gyffuriau.
- Asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i leihau'r effaith a gaiff alcohol a chamddefnyddio sylweddau yn ein cymunedau.
- Asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb yn effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau.

Mae pob strategaeth allweddol angen mewnbwn Cefnogi Pobl ar gyfer amrediad o wasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thair sy'n gwella ac yn ategu mentrau presennol. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi'r cyfle i bobl fregus wella eu hiechyd, lleihau eu hanghenion gofal cymdeithasol ac yn lleihau'r risg y bydd rhai pobl yn troseddu, yn aildroseddu, yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu'n colli eu tenantiaeth ac yn dod yn ddigartref.

Gall y rhaglen Cefnogi Pobl olygu na fydd angen ymyraethau fwy costus gan wasanaethau eraill megis iechyd, Gofal Cymdeithasol, Cyfiawnder Troseddol a Digartrefedd wrth iddo weithio gyda Darparwyr i adnabod cyfleoedd i aildrefnu gwasanaethau sy'n gwella ac yn cynyddu darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y rhai sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth. Dengys gwaith ymchwil fod buddion cost arwyddocaol, ynghyd â buddion cyffredinol, yn gysylltiedig â chyllidebau eraill megis Iechyd, Byw'n Annibynnol, Gofal Cymdeithasol, Digartrefedd, a Throsedd.

Mae Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn adlewyrchu themâu allweddol a rennir e.e. hyrwyddo diogelwch personol a chymunedol, annibyniaeth a rheolaeth, cynnydd economaidd a rheolaeth ariannol, iechyd a lles.

Mae'r deilliannau hyn yn mesur ac yn tystiolaethu'r effaith a gaiff y rhaglen CP ar fywydau'r defnyddwyr gwasanaeth ac ar raglenni polisi ehangach.

Yn gyffredinol, nod y rhaglen Cefnogi Pobl yw bodloni amcanion strategol a rennir drwy:

- Gynorthwyo pobl fregus sydd angen cefnogaeth i gyflawni, cynnal neu uchafu eu cyfle i fyw'n annibynnol ac yn llwyddiannus yn eu cymuned eu hunain.
- Helpu i leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
- Cefnogi tenantiaid neu berchnogion cartrefi, sy'n benderfynol o fwynhau eu cartref a'r gymuned, i ymgymryd â thasgau a chyflawni cyfrifoldebau yn ymwneud â'u cartref, hwy eu hunain ac eraill yn y gymuned honno.
- Canolbwyntio ar wasanaethau sy'n seiliedig ar yr angen a'r effaith fwyaf ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi i weithio tuag at gyflawni deilliannau cadarnhaol ble bo hynny'n bosib.
- Ymuno â gwasanaethau eraill er mwyn bodloni anghenion cefnogaeth gyffredinol defnyddwyr gwasanaeth a fydd yn gymorth i:
  - Gynnal ac uchafu eu hannibyniaeth
  - Cael mynediad at wybodaeth i fedru gwneud penderfyniadau deallus
  - Atal digartrefedd a thor-tenantiaeth
  - Cynorthwyo i leihau trosedd a phryder am drosedd
  - Lleihau eithrio cymdeithasol ac unigedd
  - Gwella iechyd a lles
  - Gwella rheolaeth ariannol ac economaidd

- Lleihau gorfod mynd i'r ysbyty, carchar neu fathau eraill o ofal sefydliadol yn ddiangen neu'n gynamserol.

## **Gyrwyr Cenedlaethol**

### **Deddf Tai (Cymru) 2014**

Ar 8 Gorffennaf 2014, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Bil Tai (Cymru). Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014 a daeth yn Ddeddf Tai (Cymru) yn ffurfiol.

Bwriedir i'r ddeddfwriaeth arwain at:

- Lai o aelwydydd yn dioddef y trawma o ddigartrefedd
- Gwaith ataliol gwell ac wedi'i dargedu
- Mwy o gymorth, cyngor a gwybodaeth i aelwydydd sy'n derbyn cymorth cyfyngedig dan y ddeddfwriaeth bresennol
- Canolbwyntio mwy ar y defnyddwyr gwasanaeth, eu helpu i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi digartrefedd a'u helpu i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â chanfod datrysiadau i'w problem tai.
- Defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat fel datrysiad i ddigartrefedd.
- Pwyslais cryfach ar gydweithrediad a gweithio amlasiantaethol, a
- Plant mewn aelwydydd digartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref yn derbyn mwy o warchodaeth yn ogystal â chymorth ychwanegol i blant sy'n ymadael â gofal.

Bydd y prif newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd yn weithredol o fis Ebrill 2015.

Bydd y Ddeddf newydd hefyd yn cefnogi'r sector rhentu preifat wrth ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ac asiantau gofrestru a chael eu trwyddedu, disgwylir i hyn ddod i rym yn yr hydref 2015.

Bwriedir hefyd i'r Ddeddf arwain at ddarparu mwy o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o ganlyniad i'r angen sydd wedi'i adnabod, bydd y darpariaethau newydd wedi dechrau'n llawn erbyn mis Mawrth 2016.

I grynhoi, bydd yn bwriadu:

- gwella safon a rheolaeth yn y sector rhentu preifat gan gyflwyno'r cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol.
- lleihau lefelau digartrefedd gan sicrhau bod ei atal yn ganolog i ddyletswyddau'r awdurdod lleol er mwyn helpu pobl sydd mewn perygl.
- helpu i gynyddu'r cyflenwad tai gan annog perchnogion i werthu neu rentu eu heiddo gwag tymor hir.



Fel comisiynwyr, bydd y newidiadau hyn yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaeth ac yn sicrhau fod atal digartrefedd a gwasanaethau cysylltiedig yn flaenoriaeth yn unol â chanllawiau statudol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad, gall hyn arwain at amddiffyn yr hen wasanaethau SPRG sydd, yn hanesyddol, wedi darparu cefnogaeth a llety dros dro i'r bobl hynny sy'n ddigartref neu sydd ar fin dod yn ddigartref. Gall hyn effeithio yn ariannol ar y gwasanaethau a'r cyllidebau statudol hynny a ddiffiniwyd yn y gorffennol fel gwasanaethau Gofal Cymunedol a Phobl Hŷn hir dymor megis prosiectau Anabledau Dysgu, Iechyd Meddwl neu Dai Gwarchod.

## **Y Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd (2009-2019)**

Bwriad **Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd 2009 - 2019** Llywodraeth Cymru i llywio'r ffocws a'r ymateb cenedlaethol ar yr hyn sy'n achosi digartrefedd. Mae'r Cynllun yn annog datblygu datrysiadau tai cynaliadwy i bawb, lleihau digartrefedd i'r eithaf, atal digartrefedd drwy adnabod ac ymyrryd yn gynnar, ynghyd â mynediad cyffredinol i wasanaethau. Pan na ellir atal digartrefedd, lleihau trawma'r profiad drwy ymateb cyflym a phriodol gan wasanaethau.

Dyma'r amcanion strategol sy'n tanategu'r Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd ac sy'n cwmpasu'r weledigaeth ehangach:

- atal digartrefedd ble bynnag bo hynny'n bosib;
- gweithio ar draws ffiniau sefydliadau a pholisïau;
- rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth wrth galon y ddarpariaeth gwasanaeth;
- sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal i wasanaethau;
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

## **Diwygio Lles**

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi diweddarau'r Bil Diwygio Lles sydd wedi arwain at nifer o newidiadau yn cynnwys addasiadau i'r Budd-dal Tai a'r rheoliadau Lwfans Tai Lleol (ystafell wely). Bydd y newidiadau'n yn bwriadu i leihau faint o arian a warir ar fudd-daliadau, yn annog pobl yn ôl i gyflogaeth ac yn symleiddio'r system budd-daliadau.

Yn ddi-os, bydd y newidiadau'n golygu y bydd rhai pobl yn profi anawsterau wrth dalu rhent. Mae'n anodd mesur effaith y newidiadau hyn, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y bydd y newidiadau'n cael effaith sylweddol ac mae wedi darparu arian i gyflogi Swyddog Cyswllt Landlord a Thenantiaid yng Ngwynedd.

Gall y newidiadau hyn effeithio ar flaenoriaethau comisiynu Cefnogi Pobl a fydd angen canolbwyntio ar wasanaethau all gefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gynnal eu tenantiaethau a'u hatal rhag dod yn ddigartref.

## **Rhentu Cartrefi (y Papur Gwyn) – Mai 2013**

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio papur gwyn yn cynnig fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer rhentu cartref yng Nghymru.

Os caiff ei basio gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd y Bil Rhentu Cartrefi yn newid y rhan fwyaf o gytundebau tenantiaeth tai i fod yn un o ddau brif fath:

- 'Contract wedi ei ddiogelu' sy'n seiliedig ar denantiaeth ddiogel yr awdurdod lleol, a fydd yn cael ei ddefnyddio' bennaf gan gynghorau a chymdeithasau tai ar gyfer tai tymor hir.
- 'Contract safonol', a fydd yn debyg i'r denantiaeth fyrddaliol sicr gyfredol a ddefnyddir yn bennaf yn y sector rhentu preifat.

Gyda'i gilydd, bydd y contractau hyn yn disodli amryw o fathau presennol o gontractau rhentu ac yn helpu i sicrhau cydraddoldeb a hyblygrwydd ym mhob math o dai rhent.

Yn ogystal â gwneud y gyfraith yn haws i'w deall, mae manteision eraill y cynigion yn cynnwys:

- Ymdrin â thrais yn y cartref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhai aelwydydd yn fwy effeithiol, trwy gael telerau 'ymddygiad gwaharddedig' ym mhob contract.
- Newid y drefn fel bod y seiliau dros droi tenantiaid allan ar gyfer rhai sy'n rhentu gan gymdeithasau tai yr un fath â rhai'r cynghorau lleol.
- Ei gwneud yn haws i bobl ymuno â neu adael contractau rhentu ar y cyd.
- Trefniadau haws ar gyfer rhentu byrdymor.
- Helpu pobl ifanc gan ei gwneud yn haws i bobl ifanc sy'n 16 a 17 mlwydd oed rentu tai.
- Safoni'r hawl i gymryd drosodd tenantiaeth cymdeithas dai neu denantiaeth y Cyngor pan fo'r tenant presennol yn marw, a rhoi hawl newydd i ofalwr preswyl tymor hir.
- Gofyniad ym mhob contract fod y landlord yn cynnal yr eiddo ac yn sicrhau nad oes unrhyw risgiau iechyd a diogelwch difrifol.
- Lleihau costau trwy fframwaith cyfreithiol fwy syml.
- Ei gwneud yn haws i landlordiaid adfer eiddo sydd wedi'u gadael.
- Ei gwneud yn anoddach i landlordiaid gwael danbrizio rhai da.

Am y tro cyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer tai â chymorth. Mae tai â chymorth yn rhoi llety i rai o aelodau mwyaf difreintiedig ac eithriedig y gymdeithas, ond nid yw'r fframwaith cyfreithiol cyfredol yn adnabod yr heriau penodol a all godi yn y sefyllfaoedd hyn. Mae'r cynigion Rhentu Cartrefi yn ceisio sefydlu fframwaith cyfreithiol ymroddgar ar gyfer tai â chymorth, gan ystyried yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon.

Anela i helpu pobl fregus symud o dai â chymorth i dai annibynnol, gan roi fframwaith cyfreithiol ymarferol i ddarparwyr y tai hyn er mwyn cyflawni'r nod.

## **Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gyfraith ar 1 Mai 2014. Mae'n rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofaluwr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Amlygodd y Papur Gwyn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' nifer o sialensiau oedd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys newidiadau demograffeg, disgwyliadau cynyddol gan y rhai sy'n cael mynediad i ofal a chefnogaeth yn ogystal â sefyllfa economaidd anodd barhaus. Mae'r ddeddf yn ceisio ymdrin â'r materion hyn ac, wrth wneud hynny, rhoi rhyddid i bobl benderfynu pa wasanaethau y maent eu hangen, gan gynnig gwasanaethau cyson, o ansawdd uchel ar draws y wlad.

Bydd y Deddf yn trawsffurfio'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, gan hyrwyddo annibyniaeth er mwyn rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i'r bobl. Bydd y Ddeddf yn hybu cydraddoldeb, yn gwella ansawdd gwasanaethau ac yn cynyddu mynediad at ddarpariaeth gwybodaeth. Mae hefyd yn annog canolbwyntio ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar.

Mae rhai swyddogaethau o fewn y Ddeddf newydd yn debyg i'r gwasanaethau cefnogi a ariennir gan y rhaglen Cefnogi Pobl, felly mae'n hollbwysig ystyried yr effaith a gaiff y Ddeddf ar Gefnogi Pobl.

## **Trechu Tlodi – Creu Cymunedau Cryf**

Yn *Creu Cymunedau Cryf: Symud ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn adnabod rôl Cefnogi Pobl mewn lliniaru'r effaith a gaiff tlodi wrth iddynt helpu i sicrhau mynediad teg i wasanaethau gofal iechyd, tai, ariannol, a digidol a gwella gwasanaethau sy'n ymwneud â thai i bobl fregus.

Yn genedlaethol, mae arian grant Cefnogi Pobl yn helpu 70,000 o bobl i fyw yn annibynnol a chadw eu llety; mae hefyd yn helpu i ddarparu cyflogaeth gan ariannu 10,000 o swyddi sydd gyfwerth â swyddi llawn amser mewn gwasanaethau cefnogi.

Mae *Creu Cymunedau Cryf* yn adnabod y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i rymuso cymunedau fel man cychwyn LIC wrth gyflawni newid. Er mwyn gwneud cymunedau yn iachach, yn gyfoethocach, yn fwy medrus ac yn fwy gwybodus, mae'r rhaglen hon yn adnabod tri prif amcan: Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Dysgu, Cymunedau Iachach.

Yng Ngwynedd, mae Cefnogi Pobl yn cyfrannu at y blaenoriaethau cenedlaethol hyn gan sicrhau fod gwasanaethau cefnogi effeithiol ac addas sy'n ymwneud â thai yn cael eu darparu er mwyn bodloni anghenion ein dinasyddion mwyaf bregus.

## **Cyllid**

Mae arian grant yng Ngwynedd wedi lleihau o £6,476,381 yn 2010 / 11 i £5,516,070 yn 2014 / 15, sy'n ostyngiad cyffredinol o tua 13%. Mae amcangyfrifon y dyfodol yn awgrymu bydd lleihad pellach yn 10.2% yn 2015 /16. Tra y disgwyliwyd toriad mewn arian, golyga'r

lefelau amcangyfrifedig y bydd angen dad-gomisiynu rhai gwasanaethau, a lleihau rhai eraill yn sylweddol.

**I grynhoi** – Fel comisiynwyr, bydd y newidiadau hyn yn dylanwadu ar:

- Datblygiad y gwasanaeth wrth sicrhau bod digartrefedd ac atal digartrefedd yn flaenoriaeth.
- Gwarchod yr hen wasanaethau SPRG sydd, yn hanesyddol, wedi darparu cefnogaeth a llety dros dro i'r bobl hynny sy'n ddigartref neu sydd ar fin dod yn ddigartref.
- Yr effaith ariannol y gwas ar wasanaethau a'r cyllidebau statudol hynny a gafodd eu diffinio yn y gorffennol fel gwasanaethau Gofal Cymunedol a Phobl Hŷn hir dymor megis prosiectau Anabledau Dysgu, Iechyd Meddwl neu Dai Gwarchod.

## **Cefnogi Pobl – Blaenoriaethau Strategol**

O ystyried yr angen am arbedion sylweddol a'r ffaith ein bod yn rhagweld diffygion sylweddol wrth symud ymlaen, mae'n angenrheidiol bod Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda phartneriaid a darparwyr er mwyn ystyried sut y gallwn wneud y defnydd gorau o gyllidebau presennol ac i geisio lleihau neu liniaru'r effaith a geir ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Ein strategaeth felly fydd ceisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwarchod gwasanaethau craidd sy'n cynnig darpariaeth effeithiol o ansawdd uchel mewn modd effeithlon. Byddwn hefyd yn ymdrechu i flaenoriaethu gwasanaethau sy'n atal digartrefedd ac yn ymdrin ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae dyfodol y rhaglen yng Ngwynedd yn dibynnu ar y defnydd gorau o adnoddau a pharodrwydd yr holl fudd-ddeiliaid i weithio â'i gilydd mewn partneriaeth.

Mae ethos cyd-gynhyrchu eisoes wedi cael ei adnabod fel y ffordd ymlaen; caiff hyn ei ddangos yn natblygiad y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, sy'n dechrau adolygu a gwella darpariaeth gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru.

Bydd cymeriad unigryw Gwynedd, yn nhermau ei natur wledig a'r nifer cyfyngedig o dai sydd ar gael, yn effeithio ar flaenoriaethau comisiynu'r dyfodol. Bydd gwarchod gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety e.e. hosteli, lloches a thai â chymorth yn hollbwysig er mwyn sicrhau fod y rhai sy'n dod yn ddigartref ac angen cefnogaeth argyfwng neu lefel uwch o gefnogaeth yn derbyn llety.

Amlygodd y broses adolygu gwasanaeth yr angen posib i roi cefnogaeth gyffredinol yn ôl yr angen ar lefel isel, a allai ddarparu gwasanaeth ataliol fwy cost effeithiol yn y tymor hir.

Mae'r adolygiad Aylward yn hyrwyddo bod darpariaeth gwasanaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn symud tuag at wasanaethau sy'n 'seiliedig ar anghenion' yn hytrach na 'seiliedig ar ddaliadaeth', ac mae hwn yn faes a fydd yn cael ei ddatblygu, ac sydd eisoes yn y broses o newid, gyda rhai RSL yn gweithredu cynlluniau peilot 'seiliedig ar anghenion'.

Mae angen siapio'r farchnad Darparwr er mwyn annog tendro ar y cyd neu gystadleuol. Mae'n rhaid i gomisiynwyr ystyried y darbedion maint y gellir eu hennill trwy gomisiynu ar y cyd, a'r manteision o gyfuno darpariaeth gwasanaeth dros y ffin.

## **Datganiad Comisiynu – Egwyddorion Cyffredinol**

Bydd egwyddorion comisiynu strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer Grant Rhaglen Cefnogi Pobl yn gyson yn y modd a ganlyn:

- a) Bydd toriadau'n cael eu cyflawni'n strategol ac, os yn bosib, byddwn yn osgoi toriadau unffurf.
- b) Bydd ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau unigol yn cael eu hystyried, ac fel arfer ni fyddwn yn ail-dendro oni bai fod gwasanaethau yn methu â darparu manyleb gwasanaeth.
- c) Bydd gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth yn ymwneud â thai yn cael eu hystyried, yn ogystal â'r posibilrwydd y byddai'n fwy addas i rai gwasanaethau gael eu hariannu gan gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu hystyried fel gwasanaeth sy'n galluogi ac yn canolbwyntio ar ddatblygu annibyniaeth person, yn hytrach na sefydlu dibyniaeth hirdymor h.y. 'gwneud gyda' yn wahanol i 'gwneud dros'.
- d) Bydd ffioedd gweinyddol a rheoli yn cael eu hadolygu a'u monitro er mwyn sicrhau cysondeb ac i sicrhau fod cymaint o arian â phosib yn cael ei roi i gefnogi gwasanaethau rheng-flaen.
- e) Bydden yn ceisio cyflawni arbedion trwy fesurau effeithlonrwydd sy'n ystyried:
- Cydweithio rhanbarthol ac isranbarthol
  - comisiynu a chontractio gwasanaethau ar y cyd sy'n cael eu darparu ar draws ffiniau awdurdodau lleol
  - Gweithio mewn partneriaeth gyda Darparwyr a Budd-ddeiliaid
- f) Bydd cynnal gwasanaethau sy'n atal digartrefedd yn flaenoriaeth.
- g) Bydd effaith cydraddoldeb unrhyw benderfyniadau ynghylch ariannu yn cael ei werthuso.
- h) Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth ynghylch sut i weinyddu toriadau, gyda'r nod o dderbyn awgrymiadau adeiladol a datrysiadau.
- i) Dylai gwasanaethau ganolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth sy'n seiliedig ar 'angen' yn hytrach na 'daliadaeth'.
- j) Mae'n rhaid i ddarpariaeth gwasanaeth allu arddangos cost effeithiolrwydd a gwerth am arian.
- k) Gwarchod 'tai â chymorth' ble bo hynny'n bosib e.e. llety sydd â chefnogaeth wedi'i gynnwys yn y denantiaeth.
- l) Datblygu gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen lefel isel.
- m) Ystyried ailfodelu neu ddad-gomisiynu gwasanaethau nad ydynt yn cynnig gwerth am arian.

n) Bydd Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl yn ystyried dad-gomisiynu gwasanaethau sy'n debyg ac ail-gomisiynu gyda Darparwr unigol er mwyn gwireddu arbedion effeithlonrwydd.

## **2. GWEITHREDU EFFEITHLONRWYDD AR LEFEL LEOL**

Er mwyn rheoli'r lleihad parhaol mewn arian grant yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol, gan barhau i ganolbwyntio ar ddigartrefedd ac atal digartrefedd, mae'r strategaethau a ganlyn wedi cael eu gweithredu:

- Sicrhau bod yr holl ddarpariaeth bresennol yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth.
- Pan fo cefnogaeth wedi dod i ben, ac os yw'n addas, mae / bydd ail-fuddsoddi yn cael ei dynnu'n ôl a bydd yr arbedion yn cael eu rhoi tuag at y toriadau.
- Ble bo'n briodol, bydd gwasanaethau / mae gwasanaethau wedi cael eu hailfodelu gan ddefnyddio'r templed Canllawiau ar Gostau.
- Mae monitro ac adolygu darpariaeth y gwasanaeth wedi amlygu'r angen am ddull mwy cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau Cymorth yn ôl yr Angen. Mae'n debygol y bydd rhai gwasanaethau Cymorth yn ôl yr Angen yn cael eu dad-gomisiynu a bydd gwasanaethau Cymorth yn ôl yr Angen cyffredinol, cost effeithiol yn cymryd eu lle.
- Mae mynediad i lety 'bricks a mortar' yn brin dros ben, felly mae'n ddarbodus yn strategol i gadw / amddiffyn darpariaeth gwasanaethau sy'n cynnwys hosteli, llochesi, tai â chymorth a thai a rennir.
- Mae contractau yn cael eu hadolygu ac mae costau uned / cyfraddau fesul awr yn cael eu hail-negodi ble bo'n briodol.
- Mae'r beichiau rheoli a gweinyddu ychwanegol wedi cael eu hysgwyddo gan y tîm Cefnogi Pobl e.e. trosglwyddo'r hen gyllid SPRG i ALI a gweithredu'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Contractau ar y cyd ar gyfer prosiectau anabledd dysgu a iechyd meddwl rhwng Gwasanaethau Oedolion a Chefnogi Pobl.
- Timau CP Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu trefniadau contractio ar y cyd fel bod modd i Ddarparwyr weithio ar draws y ddwy sir.
- Cyd-gynhyrchu gyda Darparwyr er mwyn adnabod ffordd well o weithio a gwireddu effeithlonrwydd trwy ddarpariaeth gwasanaethau doethach.
- Adolygu costau prosiect i sicrhau cysondeb ar draws yr holl Ddarparwyr.

### 3. CYFLENWAD, ANGEN A BYLCHAU YN Y GWASANAETH


Mae Atodiad 1 sydd ynghlwm - 'Crynodeb o Wasanaethau Cefnogi Cyfredol, Bylchau mewn darpariaeth, bwriadau / blaenoriaethau comisiynu a dad-gomisiynu' yn rhoi trosolwg mwy manwl o'r sefyllfa gyfredol yn nhermau cyflenwad, y galw a datblygiadau'r dyfodol fesul grŵp defnyddwyr gwasanaeth.

Cafodd gwybodaeth a data, o ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Lleol, Data Mapio Anghenion, Adolygiadau Gwasanaeth, monitro Deilliannau a chyfarfodydd gyda Darparwyr Cefnogaeth oll eu defnyddio fel tystiolaeth i gefnogi asesiadau comisiynu a dad-gomisiynu.

Mae'r themâu cyffredinol sy'n effeithio ar y rhaglen wedi parhau heb eu newid ar y cyfan ers i'r cynllun cyntaf gael ei baratoi yn 2003, gyda data yn mesur amcangyfrif o'r angen yn erbyn cyflenwad cyfredol.

#### Data Mapio Anghenion

Derbyniwyd cyfanswm o 542 ffurflen Ymarfer Mapio Anghenion (NME) rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014. Mae'r tabl isod yn dangos y nifer a dderbyniwyd fesul grŵp cleient.



Derbyniwyd y mwyafrif o'r ffurflenni NME (47%) gan bobl rhwng 16 a 24 mlwydd oed, gyda 27% o'r ffurflenni wedi'u derbyn gan bobl rhwng 25 a 40 mlwydd oed, 23% gan bobl rhwng 41 a 60 mlwydd oed, a 3% gan bobl dros 61 mlwydd oed.

Roedd 52% (284) gan ferched, a 48% (258) gan ddynion. Cwblhawyd 0.7% (4) o'r ffurflenni gan bobl o'r Lluoedd Arfog.

Dangosodd y dadansoddiad cyflenwad, anghenion, adborth defnyddwyr gwasanaeth a bylchau gwasanaeth:

- Yn gyffredinol, mae defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon gydag ansawdd y gefnogaeth yn ymwneud â thai a ddarperir drwy arian Cefnogi Pobl.
- Derbynnir yn gyffredinol fod angen cynyddu'r gwasanaethau cefnogaeth yn ymwneud â thai ledled y Sir. Mae dosbarthiad daearyddol y boblogaeth yn gofyn am fodelau arloesol o ddarparu gwasanaeth i wella mynediad i wasanaethau o'r fath.
- Derbynnir hefyd fod yn well gan bobl lety hunangynhaliol yn hytrach na darpariaeth o fath hostel, er y byddai gan ddarpariaeth o'r fath rôl i ddarparu llety tymor byr a brys tra bo anghenion yn cael eu hasesu.
- Mae diffyg cyffredinol o lety addas, e.e. llety un neu ddwy lofft, ar gyfer pob grŵp blaenoriaeth cefnogi pobl, yn enwedig pobl sengl rhwng 16 a 24 mlwydd oed, ynghyd â'r gwasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen a fyddai'n eu galluogi i 'symud ymlaen' i lety parhaol neu i gynnal eu cartrefi.
- Mae pob Cynllun Cefnogi Pobl hyd heddiw wedi adnabod y broblem o ddod o hyd i lety "symud ymlaen" i bobl sy'n derbyn llety mewn tai â chefnogaeth dros dro, sy'n arwain at dagfa yn y ddarpariaeth gwasanaeth a'r sgil effaith o leihau'r adnoddau sydd ar gael i bobl newydd.
- Cydnabyddir y bydd y prif gyflenwad o lety addas yn parhau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n chwarae rôl allweddol wrth ddarparu llety fforddiadwy ledled y sir.
- Mae angen cynyddu darpariaeth Landlordiaid Preifat.
- Mae darpariaeth gwasanaeth yn canolbwyntio ar fodelau darpariaeth megis hostelau, rhannu tai neu gefnogaeth yn ôl yr angen. Mae angen amrywio hyn a chynnig modelau eraill o gefnogaeth h.y. llety cynaledig, llety Foyer, *Night Stop* a Chartrefi am Oes.
- Gall y newidiadau yn y system lles fod yn gatalydd ar gyfer mathau eraill o fodelau llety e.e. rhannu tai.
- Mae cefnogaeth i rieni yn nhermau rheoli ymddygiad eu plant yn hanfodol os ydynt am gadw eu tenantiaeth yn llwyddiannus ac atal digartrefedd.
  - Y nifer cynyddol o bobl sy'n wynebu dyledion ac ôl-ddyledion.
  - Mewn rhai ardaloedd, diffyg cyswllt gyda gwasanaethau statudol.
  - Yr angen am gefnogaeth drosglwyddo rhwng y carchar ac ailsefydlu.

#### **4. FFRAMWAITH DEILLIANNAU CENEDLAETHOL**

Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr cefnogaeth wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol. Nod y Fframwaith Deilliannau yw cynorthwyo dealltwriaeth o'r hyn y mae Cefnogi Pobl yn ei gyflawni a mesur yr effaith a gaiff ymyraethau cefnogi ar y rhai sy'n derbyn gwasanaeth.



Pwrpas y Fframwaith yw:

- mabwysiadu system i gasglu gwybodaeth ystyrion ynghylch deilliannau.
- defnyddio'r wybodaeth i fesur, cynnal a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.
- adnabod effeithiolrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl.
- dangos fod y gefnogaeth yn cysylltu i'r rhaglen polisi ehangach ac amcanion strategol.

Ers mis Ebrill 2012 mae casglu data sy'n seiliedig ar ddeilliannau wedi bod yn orfodol i wasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl. Mae'n rhaid i'r holl ddarparwyr gwblhau'r wybodaeth am ddeilliannau ar daenlen a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae system Deilliannau Gogledd Cymru sy'n seiliedig ar y wê wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2013.

O fis Ebrill 2014, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol fesur 'Taith' y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu cefnogi gan y Rhaglen. Caiff hyn ei hwyluso gan y ffaith ei bod yn ofniad i gofnodi gwybodaeth ar bawb sy'n derbyn mynediad i wasanaethau CP. Erbyn diwedd y cyfnod cefnogi, bydd yn bosib mesur sut mae'r cefnogaeth wedi effeithio ar y defnyddiwr gwasanaeth. Bydd y cynnydd yn cael ei fesur a'r dystiolaeth yn cadarnhau yr hyn a ddarganfuwyd.

Bydd y Casgliad Deilliannau yn aros yr un fath ar gyfer 2014 / 15. Mae gofyn i bob Darparwr Gwasanaeth adrodd ar gynnydd eu defnyddwyr gwasanaeth bob chwe mis. Mae pedair thema allweddol ac un ar ddeg maes i adrodd arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

#### **Hyrwyddo Diogelwch Personol a Chymunedol**

- Teimlo'n Ddiogel
- Cyfrannu at ddiogelwch a lles ei hun ac eraill

#### **Hyrwyddo Annibyniaeth a Rheolaeth**

- Rheoli llety
- Rheoli perthnasau
- Teimlo'n rhan o'r gymuned

#### **Hyrwyddo cynnydd economaidd a rheolaeth ariannol**

- Rheoli arian
- Ymgysylltu ag addysg / dysgu
- Ymgysylltu â chyflogaeth / gwaith gwirfoddol

#### **Hyrwyddo Iechyd a Lles**

- Iach yn gorfforol
- Iach yn feddyliol
- Byw bywyd iach ac egniol

#### **Casglu Data Deilliannau 2013 / 14**

Mae'r gronfa ddata Deilliannau yn darparu gwybodaeth mewn dwy ffurf.

- Manylion ynghylch y deilliannau a gyflawnwyd ar ôl adael y gwasanaeth (Gwasanaeth yn Dod i Ben).
- Trosolwg o'r deilliannau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer y rhai sy'n parhau i dderbyn cefnogaeth (adolygiad Gwasanaeth).

Nododd yr adroddiad Adolygiad Gwasanaeth fod y pedwar deilliant â'r nifer uchaf wedi cael eu cofnodi ar gyfer y grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a ganlyn:

Cefnogaeth Hirdymor	-	Pobl sydd dros 55 mlwydd oed (466)
	-	Pobl gydag anabledd corfforol (264)
	-	Pobl gydag anabledd dysgu (193)
	-	Gwasanaethau Larwm Cymunedol (177)
	-	Pobl â phroblemau iechyd meddwl (104)
Cefnogaeth Byrdymor	-	Pobl sy'n dianc rhag trais yn y cartref (112)
	-	Pobl â phroblemau alcohol(56)
	-	Pobl ifanc (56)
	-	Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (32)
	-	Rhieni senl (29)

Mae'r adroddiadau Gwasanaeth yn Dod i Ben ac Adolygiad Gwasanaeth yn cadarnhau fod y mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth angen cefnogaeth gyda:

- Rheoli llety
- Rheoli arian
- Teimlo'n ddiogel

Y mater lleiaf pwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth oedd addysg a dysgu.

#### Gwasanaeth yn Dod i Ben (Atodiad 2)

Bu gyfanswm o 782 o bobl adael y gwasanaeth yn ystod 2013 / 14.

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd cyffredinol a wnaed ym mhob maes Deilliant erbyn diwedd y gefnogaeth.

Deilliant	Y nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn cael trafferth gyda hyn	Canran Uchaf	Lefel a gyrhaeddant
Teimlo'n ddiogel	546	27%	Cam 5 – Wedi cynyddu annibyniaeth i'r eithaf
Teimlo'n rhan o'r gymuned	302	38%	Cam 5 – Wedi cynyddu annibyniaeth i'r eithaf

<b>Rheoli arian</b>	<b>556</b>	<b>30%</b>	<b>Cam 5 – Wedi cynyddu annibyniaeth i'r eithaf</b>
<b>Rheoli llety</b>	<b>665</b>	<b>25%</b>	<b>Cam 4 - Cyflawniad gyda chefnogaeth</b>
<b>Rheoli perthnasau</b>	<b>374</b>	<b>27%</b>	<b>Cam 3 – Gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Iechyd corfforol</b>	<b>344</b>	<b>27%</b>	<b>Cam 3 – Gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Iechyd meddwl</b>	<b>322</b>	<b>33%</b>	<b>Cam 3 – Gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Byw bywyd iach ac egnïol</b>	<b>346</b>	<b>32%</b>	<b>Cam 3 – Gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Diogelwch a lles eich hun ac eraill</b>	<b>504</b>	<b>24%</b>	<b>Cam 3 – Gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Addysg a Dysgu</b>	<b>217</b>	<b>30%</b>	<b>Cam 3 – Gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Gwirfoddoli a chyflogaeth</b>	<b>240</b>	<b>32%</b>	<b>Cam 3 – Gweithio tuag at y nodau</b>

Roedd y mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth angen cefnogaeth gyda:

- Rheoli llety (85%)
- Rheoli arian (71%)
- Teimlo'n ddiogel (70%)
- Diogelwch a lles ei hun ac eraill (64%)

Y mater lleiaf pwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth oedd addysg a dysgu.

### Hyd y Gefnogaeth

Derbyniodd y rhai a adawodd y gwasanaeth gefnogaeth am y cyfnodau a ganlyn:

- |                                     |       |
|-------------------------------------|-------|
| • 6 mis neu lai                     | 50.2% |
| • 6 – 12 mis                        | 19.5% |
| • Mwy na 12 mis                     | 15.8% |
| • 30 diwrnod neu lai                | 9.2%  |
| • 1 wythnos neu lai                 | 2.7%  |
| • Yr un diwrnod neu'r diwrnod wedyn | 2.6%  |

DS: Ni gasglir Deilliannau ar gyfer pobl hŷn sy'n derbyn gwasanaethau Larwm Cymunedol yn unig.

Ar y cyfan, mae'r Deilliannau yn dangos fod nifer sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu deilliannau targed, yn y meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar eu bywydau.

## **5. YMGYNGHORIAD**

**Fforwm Darparwyr Cefnogi Pobl Ynys Môn / Gwynedd** ar y cyd yw'r prif gerbyd ar gyfer ymgynghori gyda darparwyr ar holl agweddau'r rhaglen Cefnogi Pobl. Yn hanesyddol,

mae aelodau'r fforwm wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y Cynllun Gweithredu wrth iddo gael ei ddatblygu a'i ddrafftio h.y. cyfarfodydd mapio anghenion ar gyfer pob grŵp defnyddiwr gwasanaeth a diweddariadau yng nghyfarfodydd y Fforwm; mae hyn wedi parhau yn ystod datblygiad y Cynllun Strategol Lleol.

Rhoddir cyfle i roi sylwadau i ddarparwyr y sector statudol hefyd (Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Prawf ac Iechyd) ynghyd â swyddogion arweiniol / budd-ddeiliaid â chyfrifoldeb am Strategaethau dylanwadol allweddol eraill.

Mae ymgynghoriad ynghylch gwasanaethau Cefnogi Pobl yn parhau gydag amrediad eang o ddefnyddwyr gwasanaeth drwy fonitro ac adolygu prosesau a chyda budd-ddeiliaid drwy amrywiol gyfarfodydd, grwpiau tasg a gorffen a fforymau.

Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn rhoi cyfraniad ystyrlon wrth ddatblygu'r rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwynedd, rydym yn ceisio cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chasglu eu safbwyntiau drwy amrediad o ddulliau ymgynghori / cyfrannu.

- Mae siarad wyneb yn wyneb a defnyddwyr gwasanaeth, yn niogelwch eu cartrefi eu hunain, yn rhoi sefyllfa anffurfiol a phreifat ar gyfer trafodaeth, fel rhan o'r broses monitro ac adolygu.
- Cyfarfodydd a gynhelir yn swyddfeydd neu brosiectau'r Darparwyr Cefnogaeth.
- Mae holiaduron Defnyddwyr Gwasanaeth yn ein helpu i gyrraedd at grŵp mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae eu safbwyntiau wedi gwella ein dealltwriaeth o anghenion cyfredol a pha mor dda y mae cefnogaeth a gwasanaethau eraill yn cyfuno i gyflawni deilliannau effeithiol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod hefyd na fydd yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth eisiau cymryd rhan na rhannu eu profiadau o fewn proses ymgynghori ffurfiol neu anffurfiol ac rydym wedi parchu'r penderfyniad hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos y sylwadau a gasglwyd gyda nifer ohonynt yn cynnig cipolwg o'r themâu a'r problemau cyffredin a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

<b>Grŵp Cleient</b>	<b>Adborth</b>
Trais yn y cartref (merched a dynion)	<p>Angen gwella ymwybyddiaeth a chodi proffil grwpiau Cymorth i Ferched. Roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo nad oedd Cymorth i Ferched yn targedu'r holl grwpiau cymdeithasol a bod angen iddynt wella eu strategaeth farchnata.</p> <p>Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn nodi bod yn well ganddynt ddarpariaeth llochesi bychain, gan honni nad yw llochesi mwy yn hyrwyddo cefnogaeth gorfforol nac emosiynol.</p> <p>Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn hapus gyda lefel a hyblygrwydd y gwasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen.</p> <p>Byddai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno gweld datblygiad gwasanaeth cefnogaeth/cwrsela gorfodol ar gyfer plant hŷn (11+ oed) (er na fyddai'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan y rhaglen CP).</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>“Rwyf wedi fy siomi ar yr ochr orau gyda’r unigolion rwyf wedi eu cyfarfod sy’n gweithio i’r gwasanaeth”.</b></li> <li>• <b>“Yn dda am gyfathrebu gwybodaeth a chyfeirio i gael gwybodaeth”.</b></li> <li>• <b>“Cymorth yn ôl yr angen yn cael ei reoli’n dda”.</b></li> <li>• <b>“Mae gweithwyr wedi mynychu cyfarfod yn briodol ac maent wedi dod a gwybodaeth berthnasol i’r cyfarfod”.</b></li> <li>• <b>“Cyswllt da ar y ffôn”.</b></li> <li>• <b>“Mae angen mwy o arian ar y gwasanaethau”.</b></li> <li>• <b>Byddai’n bosib gwella’r gwasanaeth trwy “dderbyn mwy o gyfraniadau ariannol”.</b></li> <li>• <b>“Mae parhad y gwasanaeth wedi bod yn wych”</b></li> <li>• <b>“Mae staff yn eich cynghori ynglŷn â beth i’w wneud, nid dweud wrthyhych”.</b></li> <li>• <b>“Mae staff yn eich cynghori ynglŷn â ‘beth yw eich opsiynau’...”.</b></li> <li>• <b>“Mae’r gefnogaeth rwyf wedi ei derbyn hyd yn hyn wedi bod yn wych”.</b></li> <li>• <b>“Credaf fod y cynllun hwn yn syniad gwych i roi rhyddid ac annibyniaeth yn ôl i bobl”.</b></li> <li>• <b>“Mae trais domestig yn parhau i fod yn destun tabŵ, mae’r cyhoedd angen bod yn ymwybodol o’r problemau”.</b></li> <li>• <b>“Mae cefnogaeth gan gyfoedion yn bwysig, oherwydd bod yna llawer o brofiadau yn cael eu rhannu”.</b></li> <li>• <b>“Mae troseddwyr yn dda iawn am gamddefnyddio’r system”.</b></li> <li>• <b>“Roedd / mae cefnogaeth ar gael pan fo’i angen”.</b></li> </ul>
<p>Anableddau Dysgu</p>	<p>Byddai rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno byw gartref, byddai eraill yn hoffi rhannu.</p> <p>Yn gyffredinol, mae defnyddwyr gwasanaeth yn hapus gyda lefel y gefnogaeth a ddarperir.</p> <p>Codwyd pryderon yng nghyswllt lleoliad rhai eiddo, gan eu bod yn anghysbell ac y tu allan i’r gymuned leol.</p> <p>Nid yw’r system pwyntiau tai yn cydnabod anghenion yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhwystredig oherwydd yr amser hir mae’n ei gymryd i gael mynediad at lety addas.</p> <p>Mae rhannu gwybodaeth yn fan gwan ac nid yw’n hawdd i’r defnyddiwr.</p> <p>Dyma rai o sylwadau’r defnyddwyr gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>“Gallaf ymddiried yn y staff gyda fy mhroblemau”</b></li> <li>• <b>“Byddwn i’n hoffi gallu mynd allan mwy ... Rwy’n gweithio’n iawn gyda’r staff... rwy’n</b></li> </ul>

	<p><b>mynd allan gyda'r staff yn aml"</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>"Rwy'n hapus"</b></li> <li>• <b>"Rwy'n cael cefnogaeth ond byddwn i am i rywun ddod yn fwy aml"</b></li> <li>• <b>"Rwy'n hapus iawn ac yn fodlon gyda'r help y mae'r holl staff yn ei roi"</b></li> </ul>
Iechyd Meddwl	<p>Yn gyffredinol, mae defnyddwyr gwasanaeth yn hapus gyda lefel y gefnogaeth a ddarperir. Sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>"Byddwn yn hoffi cael mwy o gefnogaeth er mwyn cael gwneud mwy"</b></li> <li>• <b>"Gwaith da"</b></li> <li>• <b>"Mae gwybod bod y gefnogaeth yno bob wythnos yn gwneud i mi deimlo'n dda"</b></li> </ul>
Camddefnyddio Sylweddau (gan gynnwys problemau alcohol)	<p>Yn hoffi symud ymlaen i lety â chymorth. Roedd diffyg cyfathrebu rhwng amrywiol asiantaethau ac Adran Tai'r Cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>"Dw i ddim yn gwybod beth fuaswn yn gorfod ei wneud heb y gefnogaeth"</b></li> <li>• <b>"Gyda'u help nhw, rwyf yn teimlo fel petawn i eisiau newid fy ffordd o fyw"</b></li> <li>• <b>"Ydw, mi ydw i'n gallu byw yn annibynnol – rydw i'n dal yn bryderus, ond rydw i wedi gwella"</b></li> <li>• <b>"Ar hyn o bryd rwy'n rhy wan a bregus i fyw yn annibynnol"</b></li> <li>• <b>"Mae'r gefnogaeth sy'n cael ei roi yn golygu fy mod yn gallu mynd allan a dysgu fod gennyf ddewisiadau"</b></li> <li>• <b>"Gallu trafod pethau, rhannu problemau, clywed am y gwahanol asiantaethau a gweithgareddau sydd ar gael i leihau fy nibyniaeth ar alcohol"</b></li> <li>• <b>"Teimlaf fod popeth sy'n ymwneud â'r gefnogaeth yn fy helpu"</b></li> <li>• <b>"Rwyf angen i'r gwasanaeth hwn barhau. Mae'n fy helpu i gymryd rheolaeth dros broblemau ariannol fy nheulu ac i edrych tua'r dyfodol"</b></li> <li>• <b>"Mae'n gysur gallu siarad yn fy mamiaith"</b></li> <li>• <b>"Rwy'n dymuno diolch i'r gweithiwr cefnogol am ei gymorth. Mae ei help wedi bod yn werthfawr iawn".</b></li> </ul>
Anabledau corfforol / synhwyraidd	<p>Yn gyffredinol, mae defnyddwyr gwasanaeth yn hapus gyda lefel y gefnogaeth a ddarperir.</p>

	<p>Roedd y broblem fwyaf yn ymwneud â'r diffyg cludiant cyhoeddus oedd ar gael.</p> <p>Roedd defnyddwyr gwasanaeth am weld mwy o weithgareddau a chyfleoedd o fewn eu cymunedau lleol.</p>
<p>Pobl ifanc ag anghenion cefnogaeth</p>	<p>Yn gyffredinol hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Yn siomedig bod cynigion am lety fel arfer ar gyfer eiddo 'anodd eu gosod'. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhwystredig oherwydd yr amser hir mae'n ei gymryd i gael mynediad at lety addas ac mae'n aml yn bell oddi wrth eu teulu estynedig. Dim ond 16 awr yr wythnos y gallant weithio cyn i'r budd-dal tai ostwng. Sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>"Fyddai gen i ddim syniad sut i reoli biliau hebddynt"</b></li> <li>• <b>"Maent yn gwybod bod cartref cyntaf yn codi ofn ar rywun"</b></li> <li>• <b>"Ymddiriedaeth – rwy'n ymddiried yn llwyr ynnddi – gallwn ddweud unrhyw beth wrthi"</b></li> <li>• <b>"Mae'n eich paratoi chi'n dda iawn ar gyfer y byd mawr"</b></li> <li>• <b>"Fe helpodd fi i ddeall camdriniaeth ariannol a sut i ymdrin â'r peth"</b></li> <li>• <b>"Fe helpodd fi i adnabod problemau a ffyrdd newydd o daclo problemau"</b></li> <li>• <b>"Does dim angen cyngor ar gyllidebu arnaf"</b></li> <li>• <b>"Mae'r gefnogaeth wedi fy helpu yn fawr, byddwn i ar y stryd heb y gefnogaeth"</b></li> <li>• <b>"Mae wedi fy helpu gyda fy mherthynas gyda fy mab a fy nheulu"</b></li> <li>• <b>"Rwyf wedi magu digon o hyder nes fy mod yn gallu symud i gyflogaeth"</b></li> </ul>
<p>Materion troseddol</p>	<p>Yn ddelfrydol, byddant yn dymuno cael eu tŷ neu fflat eu hunain, mae'n well ganddynt beidio â rhannu. Ni ystyriwyd llety mewn hostel fel rhywbeth delfrydol, ond yn well na dim. Doedd gan y defnyddwyr gwasanaeth ddim gymaint o ots am faint neu leoliad, dim ond to uwch eu pennau oeddent ei eisiau. Roedd teimlad mawr o ansicrwydd ymysg defnyddwyr gwasanaeth, roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, dim ond i fethu unwaith i'w cytundeb llety dros dro ddod i ben.</p> <p>Roeddent yn teimlo bod y system yn methu annog ysgogiad. Pam mynd drwy'r holl broses o ailsefydlu, pan nad oes unrhyw lety ar gael ar y diwedd? Byddai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno gweld tenantiaethau dros dro yn ymestyn y tu hwnt i ddwy flynedd. Nid oeddent yn meddwl bod dwy flynedd yn ddigon hir i ailsefydlu o ystyried y problemau y mae rhai pobl yn eu profi.</p> <p>Roedd diffyg cyfathrebu rhwng amrywiol asiantaethau a'r</p>

	Cyngor.
Pobl sengl ag anghenion cefnogi rhwng 25 – 54 mlwydd oed – Digartrefedd.	<p>Wedi profi problemau wrth gael mynediad i lety addas a chefnogaeth briodol.</p> <p>Dim preifatrwydd mewn llety hostel. Dim digon o dai cymdeithasol ble mae eu hangen. Sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>“Mae'r staff yma i'ch helpu chi ddatrys pethau”</b></li> <li>• <b>“Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn broffesiynol – gallant ddweud pan rydych yn teimlo'n isel”</b></li> <li>• <b>“Mae'n lle da i hel eich meddyliau cyn symud ymlaen”</b></li> <li>• <b>“Mae'n debycach i rannu tŷ na byw mewn hostel – cartref oddi cartref”</b></li> <li>• <b>“Maent yn 'bobl go iawn' sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn”</b></li> <li>• <b>“Rwy'n teimlo fy mod i'n gwneud cynnydd da”</b></li> <li>• <b>“Mae'r staff bob amser yn gefnogol – mae gen i berthynas dda gyda'r staff, maent yma i helpu i ddatblygu sgiliau”</b></li> <li>• <b>“Mae'r gefnogaeth wedi fy helpu i ddod o hyd i fflat”</b></li> <li>• <b>“Mae'r gefnogaeth wedi fy helpu i fynd i'r coleg”</b></li> <li>• <b>“Fy helpu i ddod o hyd i fflat gwell i mi a fy mab”</b></li> <li>• <b>“Wedi fy annog i gysylltu â gwasanaethau eraill”</b></li> <li>• <b>“Trefnu pethau – biliau, dyledion”</b></li> <li>• <b>“Magu fy hyder”</b></li> <li>• <b>“Does dim byd na weithiodd yn dda”</b></li> <li>• <b>“Heb os, mae gennyf fwy o hyder” “Mae yna rai pethau na allaf eu gwneud ar fy mhen fy hun”</b></li> <li>• <b>“Fy helpu gydag apwyntiadau... fy helpu i fyw yn annibynnol”</b></li> <li>• <b>“Gwybod fod y gefnogaeth ar gael os a phryd byddaf ei angen”</b></li> <li>• <b>“Rwyf wedi cael fy nhrin yn dda, ac ar hyn o bryd rwyf eisiau aros yn y gwasanaeth oherwydd mae'n rhoi diogelwch i mi”</b></li> <li>• <b>Dim ond i ddweud bod fy mywyd wedi dod yn llawer gwell ers cyrraedd”</b></li> </ul>
Salwch cronig	<p>Mae'r prosiect <i>HIV and Aids Body Positive</i> rhanbarthol wedi adnabod problemau yn ymwneud â diffyg gwybodaeth gan staff tai, yn nhermau statws person a'i hawliau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</p>
Teuluoedd â rhieni sengl sydd ag anghenion cefnogi	<p>Angen llety dwy lofft. Dim preifatrwydd mewn llety hostel. Angen mwy o wasanaethau allgymorth. Dim digon o dai cymdeithasol ble mae eu hangen.</p>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>“Rwy’n teimlo fel person hollol newydd”</b></li> <li>• <b>“O’r gefnogaeth a roddwyd, mae pob peth wedi gweithio’n dda”</b></li> <li>• <b>“Help mawr gyda materion tai”</b></li> <li>• <b>“Gwasanaeth gwych a ddylai gael ei gyflwyno yn genedlaethol”</b></li> <li>• <b>“Does dim byd na weithiodd yn dda gyda’r gefnogaeth a roddwyd”</b></li> </ul>
Pobl hŷn (55+)	<p>Byddai rhai yn croesawu gwasanaeth Warden 24 awr. Nid oedd eraill angen y gwasanaeth. Roedd rhai yn meddwl bod Technoleg Gynorthwyol yn syniad da iawn, ar yr amod nad yw’n rhy ymwithiol. Yn gyffredinol, mae defnyddwyr gwasanaeth yn hapus gyda lefel y gefnogaeth a ddarperir. Gallai rôl y Warden gael ei newid i gynnwys dyletswyddau eraill. Sylwadau’r defnyddwyr gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>“Cefnogaeth ddigonol, fodd bynnag, mewn argyfwng nid wyf yn teimlo bod y system cord yn ddigon”</b></li> <li>• <b>“Rwy’n teimlo y byddai mynediad i Wi-Fi yn help mawr. Bellach, mae llawer ohonom yn hyddysg mewn TG, ond ni allwn fforddio ISP”</b></li> <li>• <b>“Yn eithaf hapus gyda’r sefyllfa bresennol”</b></li> </ul>

Roedd y darganfyddiadau’n atgyfnerthu’r dadansoddiad data anghenion a bylchau gwasanaeth yn nhermau’r anghenion nad ydynt wedi’u bodloni ac yn cadarnhau’r isod:

- Yn gyffredinol, mae defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon gydag ansawdd y gefnogaeth a ddarperir yn ymwneud â thai.

## 6. BLAENORIAETHAU’R DYFODOL

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol o leihad mewn cyllid a’r arwydd gan Lywodraeth Cymru ei bod yn bosib i’r gyllideb Cefnogi Pobl yng Ngwynedd leihau 10.2% yn 2015 / 16, mae’r Cynllun Strategol Lleol yn ceisio adnabod y grwpiau defnyddwyr gwasanaeth hynny sydd fwyaf mewn angen a sut y gellir bodloni’r anghenion hyn. Bydd cydbwysu’r gyllideb yn dominyddu’r gwaith datblygu.

Cwblhawyd asesiad angen gan ddefnyddio data a gwybodaeth a gasglwyd o’r Dadansoddiad Cyflenwad, Mapio Anghenion, Dangosyddion Perfformiad Lleol a Bylchau Gwasanaeth. Daeth y meysydd blaenoriaeth a ganlyn i’r amlwg:

## **Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaeth Digartrefedd ac Atal Digartrefedd Sy'n Flaenoriaeth**

Blaenoriaeth uchel iawn	- Trais yn y cartref (merched a dynion) - Cyfiawnder Troseddol - Ifanc a Bregus - Rhieni sengl
Blaenoriaeth uchel	- Camddefnyddio Sylweddau - Pobl sengl ag anghenion cefnogi rhwng 25 – 54 mlwydd oed
Blaenoriaeth ganolig	- Cymorth yn ôl yr angen cyffredinol - Anabledd dysgu
Blaenoriaeth isel	- Iechyd meddwl - Anabledd Corfforol - Salwch cronig - Pobl sy'n gadael gofal - Teuluoedd ag anghenion cefnogi - Pobl hŷn

Atodiad 1 – *Crynodeb o Wasanaethau Cefnogi Cyfredol, Bylchau Mewn Darpariaeth, Bwriadau / Blaenoriaethau Comisiynu / Dad-gomisiynu* yn rhoi trosolwg o'r blaenoriaethau cyfredol yng Ngwynedd.

### **Cynllun Comisiynu Rhanbarthol**

Mae'r blaenoriaethau uchod yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ac yn cael eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol fel grwpiau defnyddwyr gwasanaeth sy'n flaenoriaeth.

Mae gan yr RCP a Chynllun Strategol CP Gwynedd flaenoriaethau tebyg, sy'n cynnwys pobl ifanc fregus, trais yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau.

### **Mae blaenoriaethau rhannu gwaith yn cynnwys:**

- Sicrhau fod gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu datblygu yn ôl yr 'angen' yn hytrach nag ar sail 'daliadaeth'.
- Sicrhau fod yr arian ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu yn addas ac yn gyfartal.
- Sicrhau fod ymglymiad defnyddwyr Gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar lefel leol ac yn cael ei integreiddio i mewn i'r broses gomisiynu.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda siroedd cyfagos i gomisiynu mannau cyffredin yn ôl darpariaeth gwasanaeth.

## **7. CYFLUNIAD GWASANAETH**

Nod y blaenoriaethau ar gyfer arian SPPG yw targedu darpariaeth gwasanaeth i bobl sy'n **Ddigartref, sy'n profi Camdriniaeth yn y Cartref, sy'n Gyn-droseddwyr, sy'n Ifanc ac yn Fregus, sydd â phroblemau Camddefnyddio Sylweddau neu sy'n Rhieni Sengl.**

Yn y blynyddoedd nesaf mae'n anorfod y bydd pwysau a allai fygwth darpariaeth gwasanaeth ac yn effeithio ar lefel y cydweithrediad a'r ymddiriedaeth a ddatblygwyd rhwng y tîm Cefnogi Pobl, defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a budd-ddeiliaid.

Mae'n hanfodol bod gwaith cynllunio a datblygu i'r dyfodol yn cael ei ddylunio, ei gydlynu a'i gyflwyno i fodloni anghenion cefnogi'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sydd fwyaf bregus.

Bydd y Cynllun Dwy Flynedd hwn yn darparu cyfeiriad ar gyfer datblygu, comisiynu a dad-gomisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Mae'r cynigion ar gyfer datblygu ac ailfodelu gwasanaethau wedi'u cynnwys yn y **Crynodeb o Wasanaethau Cefnogi Cyfredol, Bylchau mewn Darpariaeth a Bwriadau . Blaenoriaethau Comisiynu a Dad-gomisiynu (Atodiad 1)**

## 8. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus i'r effeithiau y gall ein penderfyniadau (gan gynnwys penderfyniadau ariannol) eu cael ar bobl ar sail:

- hil
- rhyw
- anabledd
- ail-aseiniad rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- crefydd neu gred
- oed
- priodas neu bartneriaeth sifil
- mamolaeth a beichiogrwydd

D.S. Er dibenion prif-ffrydio, byddwn hefyd yn rhoi sylw i'r iaith Gymraeg yn ogystal â'r nodweddion a warchodir sydd wedi'u nodi uchod.

Strategaeth y Cyngor i ymdopi â'r her hon yw rhoi'r pwyslais ar arbedion effeithlonrwydd i sicrhau bod dinasyddion, yn enwedig y grwpiau hynny sydd eisoes yn fregus, yn cael eu gwarchod gymaint â phosib rhag y toriadau i wasanaethau.

Pwrpas asesiad effaith cydraddoldeb yw cydymffurfio â'r gofynion statudol sydd wedi'u nodi uchod; annog penderfyniadau teg a chytbwys drwy ymchwilio ac amlinellu unrhyw effeithiau y gall ein cynlluniau eu cael mewn perthynas ag unrhyw un (neu fwy) o'r nodweddion a warchodir.

Mae'r asesiad cydraddoldeb yn rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau'r Ddeddf sy'n sicrhau bod yr awdurdod lleol yn:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir perthnasol a'r rhai nad ydynt
- Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a'r rhai nad ydynt

Mae'r tabl isod yn ystyried yr effaith ar ddarpariaeth y gwasanaeth mewn perthynas â'r nodweddion a warchodir a grwpiau bregus CP:

## Data a gasglwyd o ddefnyddio'r Wybodaeth Mapio Anghenion 2012/13


Nodweddion a warchodir	Effaith ar Ddarparu Gwasanaethau
<b>Hil</b>	<p>Mae gwybodaeth Mapio Anghenion 2012/13 yn nodi bod 98% o bobl wedi cadarnhau ethnigrwydd Gwyn ac roedd 2% o bobl o grwpiau ethnig eraill.</p> <p>Mae'n bosib y ceir enghreifftiau ble y gall Hil effeithio ar ba fath o ddarpariaeth sydd ei hangen e.e. anghenion ieithyddol penodol, yr angen am lety i deuluoedd mawrion.</p> <p><b>Asesir bod yr effaith bosib yn Isel.</b></p>
<b>Rhyw</b>	<p>Mae gwybodaeth Mapio Anghenion yn cadarnhau bod 52% o bobl sy'n cyflwyno'u hunain gydag anghenion cefnogaeth yn ferched.</p> <p>Byddai gostyngiad mewn arian CP yn effeithio'n anghymesur ar wasanaethau sy'n benodol ar gyfer. Byddai effaith sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau i'r grŵp hwn.</p> <p><b>Cyflogaeth</b> – mae rhai gwasanaethau'n cael eu staffio'n bennaf gan ferched h.y. <b>gwasanaethau Trais yn y Cartref, Pobl Hŷn.</b> Fodd bynnag, nid oes data ar amrediad oed y staff. Mae risg y byddai'r gwasanaethau hyn yn profi lefel uwch o effaith yn sgil materion staffio.</p> <p><b>Asesir bod yr effaith bosib ar wasanaethau Trais yn y Cartref yn uchel.</b></p>
<b>Anabledd</b>	<p>Mae gwybodaeth mapio Cyflenwad ac Anghenion yn nodi mai nifer eithaf bychan o bobl sydd angen gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n gymwys yn derbyn pecynnau cefnogi sydd â chost cymharol uchel. Gall gostyngiad mewn gwasanaethau i bobl gydag <b>Anabledd Dysgu</b> olygu fod yn rhaid talu am y gefnogaeth o'r cyllidebau Gofal Cymdeithasol neu lechyd.</p> <p><b>Asesir bod yr effaith bosib yn Uchel.</b></p>
<b>Ail-aseiniad rhyw</b>	<p>Mae gwybodaeth mapio anghenion yn annibynadwy ac mae'r niferoedd a gasglwyd yn nodi % isel iawn a gofnodwyd (0.05%). Nid oes darpariaeth gwasanaeth benodol.</p> <p><b>Asesir bod yr effaith bosib yn Isel.</b></p>
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	<p>Mae gwybodaeth mapio anghenion yn annibynadwy ac mae'r niferoedd a gasglwyd yn nodi fod 58% o bobl yn Heterorywiol ac nid oedd 37% wedi manylu. Nid oes darpariaeth gwasanaeth benodol.</p> <p><b>Asesir bod yr effaith bosib yn Isel.</b></p>
<b>Crefydd neu gred</b>	<p>Nododd 88% o bobl nad oedd ganddynt grefydd, nododd 7% eu bod yn Gristnogion, a nododd y 5% sy'n weddill eu bod o</p>

	grefyddau eraill. Nid oes darpariaeth gwasanaeth benodol. <b>Asesir bod yr effaith bosib yn Isel.</b>
<b>Oedran</b>	Mae Cefnogi Pobl yn ariannu gwasanaethau i bobl sy'n 16 mlwydd oed a hŷn. Mae tua 65% (ffigwr cynllun gwariant 2014 / 15) o'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn, er ei fod yn ddarpariaeth gwasanaeth lefel isel/cost isel. Gall gostyngiad mewn gwasanaethau i <b>Bobl Hŷn</b> olygu bod yn rhaid talu am y gefnogaeth o'r cyllidebau Gofal Cymdeithasol neu lechyd. <b>Asesir bod yr effaith bosib yn Isel i Ganolig.</b>
<b>Priodas neu bartneriaeth sifil</b>	Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n cael eu darparu i bobl sengl. Mae gwybodaeth mapio anghenion yn annibynadwy ac mae'r rhifau a gasglwyd yn nodi fod 15% o bobl yn byw gyda'u partneriaid. Nid oes darpariaeth gwasanaeth benodol. <b>Asesir bod yr effaith bosib yn Isel.</b>
<b>Mamolaeth neu feichiogrwydd</b>	Mae rhai gwasanaethau'n cael eu staffio'n bennaf gan ferched h.y. <b>Trais yn y Cartref, Pobl Hŷn</b> . Fodd bynnag, nid oes data ar amrediad oed y staff. Mae risg y byddai'r gwasanaethau hyn yn profi lefel uwch o effaith yn sgil y gymhareb staffio hon. <b>Asesir bod yr effaith bosib yn Ganolig.</b>
<b>Yr Iaith Gymraeg</b>	Mae tystiolaeth o'r Broses Monitro ac Adolygu yn nodi bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae manylebau'r gwasanaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i gefnogaeth gael ei darparu yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth. Pe byddai unrhyw wasanaeth yn cael ei gwtogi byddai'r effaith yn isel, gan fod manylebau gwasanaeth y gwasanaethau sy'n weddill yn nodi bod <u>rhaid</u> darparu cefnogaeth yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth. <b>Asesir bod yr effaith yn Isel i Ganolig.</b>

## 9. CYNLLUN GWARIANT 2014 - 15

Categori Gwariant Cleient (Y categori y mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio'n bennaf arno)	£	Canran y Gyllideb Gyffredinol
Merched sy'n profi Trais yn y Cartref	535,652	9.5%
Dynion sy'n profi Trais yn y Cartref	62,238	1.1%

Pobl ag Anableddau Dysgu	2,238,455	39.6%
Pobl â phroblemau Iechyd Meddwl	213,256	3.8%
Pobl â phroblemau Camddefnyddio Sylweddau	147,207	2.6%
Pobl â Hanes o Droseddu	53,902	1.0%
Pobl ag Anableddau Corfforol a/neu Synhwyradd	9,049	0.2%
Pobl Ifanc ag Anghenion Cefnogi (16 i 24)	550,260	9.8%
Teuluoedd â Rhieni Sengl ag Anghenion Cefnogi	201,990	3.6%
Pobl Sengl ag Anghenion Cefnogi nad ydynt wedi'u rhestru uchod (25 i 54)	880,077	15.6%
Pobl dros 55 mlwydd oed ag Anghenion Cefnogi (rhaid i'r categori hwn eithrio gwasanaethau larwm)	323,497	5.8%
Cefnogaeth Cyffredinol / Yn ôl yr Angen / Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n ymdrin ag amrediad o anghenion defnyddwyr)	322,220	5.7%
Gwasanaethau Larwm (yn cynnwys mewn gofal ychwanegol/llety gwarchod)	93,112	1.7%
<b>CYFANSYMLIAU</b>	<b>£5,630,915</b>	



## Atodiad 1

## **Crynodeb o'r Gwasanaethau Cefnogi Cyfredol, Bylchau Mewn Darpariaeth, Bwriadau / Blaenoriaethau Comisiynu a Dad-gomisiynu.**

(Noder: Er bod darpariaeth gwasanaeth yn benodol i'r Prif Angen, mae nifer o ddarparwyr yn gweithio ar draws llawer o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.)

### **Crynodeb Cyffredinol**

Ar y cyfan, mae'r galw mwyaf am dai â chymorth yn dod gan bobl fregus sydd angen llety argyfwng dros dro tymor byr e.e. oherwydd eu bod wedi dod yn ddigartref, yn dianc rhag trais yn y cartref, yn ifanc ac yn fregus, â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl neu yn gyn-droseddwy.

Y rheswm mwyaf arwyddocaol dros gefnogaeth a llety, o bell ffordd, yw perthynas / teulu yn torri i lawr, ac yn ail i hynny mae rhybudd troi allan, cyflwr yr eiddo ac ôl-ddyledion rhent / morgais.

Yn nodweddiadol, yr amrediad oed sydd fwyaf tebygol o fod angen cefnogaeth yw 16 – 24 mlwydd oed. Y grŵp oedran rhwng 25 a 40 mlwydd oed yw'r ail grŵp fwyaf tebygol o fod angen cefnogaeth, ond mae llawer llai o bobl yn y grŵp oedran hwn angen cefnogaeth na sy'n y prif grŵp.

Mae'r pobl fregus hyn sydd angen cefnogaeth yn dueddol o aros yn yr ardal leol yn hytrach na symud o'r ardal i un newydd.

Mae'r gymysgedd o bobl gwrywaidd a benywaidd yn gyfartal, ond mae'n bosib bod rhai prosiectau yn cefnogi mwy o ferched na dynion, ac i'r gwrthwyneb.

Mae Data Mapio Anghenion a Monitro Perfformiad yn dangos fod anghenion cefnogaeth yn uwch na'r cyflenwad, ac mewn rhai achosion mae'r gymhareb yn arwyddocaol e.e. trais yn y cartref, cyn-droseddwy, pobl ifanc a bregus a rhieni sengl yn dangos cymhareb rhwng 1:7 a 1:11.

Mae ystadegau a thystiolaeth empeiraidd yn parhau i brofi bod angen mwy o lety addas a fforddiadwy yn ogystal â gwasanaethau cefnogi yn ôl yr angen sy'n atal digartrefedd ac yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau eraill.

Yn aml, mae'r bobl sydd angen cefnogaeth hirdymor neu hyd yn oed cefnogaeth barhaol e.e. pobl ag anabledd dysgu, pobl hŷn, pobl ag anabledd corfforol / synhwyraidd, pobl â phroblemau iechyd meddwl, eisoes yn wybyddus i Wasanaethau Oedolion, ac efallai byddent yn derbyn gofal statudol. Mae yna angen parhaus i ddarparu gwasanaethau cefnogi sy'n ategu'r sector statudol oherwydd mae ystadegau yn awgrymu y bydd cynnydd cyson yn y boblogaeth hyd at 2020. Er hyn, o gymharu ag ymyraethau argyfwng tymor byr argyfwng, mae'r galw a'r niferoedd yn eithaf isel.

### **Merched sy'n profi Trais yn y Cartref**

**Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

**De Gwynedd - Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd**

1 x darpariaeth lloches 3 gwely  
1 x 18 uned Cefnogaeth Symudol

### **Gogledd Gwynedd - Cymorth i Ferched**

1 x llety lloches 4 gwely  
1 x 7 Cefnogaeth Symudol

### **Hafan Cymru**

1 x 5 tai â chymorth  
1 x 3 tai â chymorth  
1 x 5 tai â chymorth

## **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth - anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol**

- Mae yna lawer o alw parhaus am wasanaethau trais yn y cartref.
- Mae angen mwy o gefnogaeth yn ôl yr angen, yn enwedig yn Arfon a Dwyfor.
- Y gallu i roi llety i ddynion / merched gydag anabledd corfforol.
- A oes angen darpariaeth benodol i bobl hŷn?
- Symud tuag at ddatblygu llety hunangynhaliol er mwyn lleihau'r problemau rheoli sy'n gysylltiedig â rhannu eiddo e.e. darpariaeth llochesi hunangynhaliol.
- Pobl ddi-waith 25+ mlwydd oed yn ei chael yn anodd cael mynediad at a fforddio llety 'symud ymlaen' e.e. yn aml nid yw pwyntiau tai yn ddigon i sicrhau tenantiaeth, neu nid yw'r budd-dal tai yn ddigon i dalu'r gost o rentu eiddo.
- Ymddengys bod angen cefnogaeth yn ôl yr angen ar lefel isel i bobl sydd ag anableddau dysgu cymedrol.
- Yr angen i ddatblygu gwasanaeth 'Siop un Stop' yn ardal Arfon. Mae DASSG eisoes yn gweithredu gwasanaeth yn ne Gwynedd.
- Darparu lloches 24 awr â staff fyddai'n gallu darparu llety argyfwng.
- Mae ystadegau BAWSO yn dangos y cyfeiriwyd 32 person (2013 / 14) o gymunedau BME yng Ngwynedd am gefnogaeth.
- Ystyried datblygu gwasanaethau arbenigol i gefnogi'r rheini o gymunedau BME.

## **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

### **Grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel iawn.**

O ystyried lefel y toriadau sy'n ddisgwyliedig yn ystod 2015 / 17, pe byddai cyllid ar gael dylid cyfyngu darpariaeth gwasanaeth ychwanegol i ddatblygu gwasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen sy'n cael eu darparu trwy gydweithio rhwng darparwyr.

Bydd datblygiad gwasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen yn y dyfodol yn darparu gwasanaethau penodol i ferched a dynion.

## **Dynion sy'n profi Trais yn y Cartref**

### **Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**



## **De Gwynedd - Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd**

1 x 6 uned Cefnogaeth Symudol

### **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth - anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol**

- Mae yna lawer o alw parhaus am wasanaethau trais yn y cartref.
- Yr angen am fwy o gymorth yn ôl yr angen.
- Y gallu i roi llety i ddynion / merched gydag anabledd corfforol.
- A oes angen darpariaeth benodol i bobl hŷn?
- Pobl ddi-waith 25+ mlwydd oed yn ei chael yn anodd cael mynediad at, a fforddio llety 'symud ymlaen' e.e. yn aml nid yw pwyntiau tai yn ddigon i sicrhau tenantiaeth, neu nid yw'r budd-dal tai yn ddigon i dalu'r gost o rentu eiddo.
- Ymddengys bod angen cefnogaeth fel bo'r angen ar lefel isel i bobl sydd ag anableddau dysgu cymedrol.

### **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

#### **Grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel iawn.**

O ystyried lefel y toriadau sy'n ddisgwyliedig yn ystod 2015 / 17, pe byddai cyllid ar gael dylid cyfyngu darpariaeth gwasanaeth ychwanegol i ddatblygu gwasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen sy'n cael eu darparu trwy gydweithio rhwng darparwyr.

Bydd datblygiad gwasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen yn y dyfodol yn darparu gwasanaethau penodol i ferched a dynion.

## **Pobl ag Anawsterau Dysgu**

### **Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

Gwasanaeth Adfocatiaeth – 124 uned o Cefnogaeth Symudol

Seren – 6 uned o Cefnogaeth Symudol

Seren – 4 uned o dai a rennir

Uned Darparu'r Cyngor – 25 uned o Cefnogaeth Symudol

Uned Darparu'r Cyngor - 23 llety tai a rennir

Allied Homecare – 3 uned o Cefnogaeth Symudol

Allied Homecare – 2 uned o dai a rennir

Cynllun Lleoli Oedolion – 7 llety tai a rennir

Anheddau – 17 uned tai a rennir

Anheddau – 4 uned o Cefnogaeth Symudol

Antur Waunfawr – 6 uned o dai a rennir

Antur Waunfawr - 5 uned o Cefnogaeth Symudol

Cartrefi Cymru – 13 uned o dai a rennir

Cartrefi Cymru – 3 uned o Cefnogaeth Symudol

## **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.**

- Dangosodd data y bydd y nifer o bobl (rhwng 18 a 85+ mlwydd oed) sydd ag anabledd dysgu yn cynyddu o 2,316 yn 2013 i 2,394 yn 2020.
- Datblygu cynlluniau byw â chefnogaeth sy'n cynorthwyo tenantiaid a ddewisir yn benodol i symud ymlaen i fodolau cefnogaeth llai dwys.
- Cynyddu tai cymunedol, rhai a rennir a phreswylwyr unigol.
- Cynyddu Cefnogaeth yn ôl yr Angen (lefel uchel, canolig ac isel o gefnogaeth).
- Galluogi pobl sydd o dan y sbectrum AD i gael mynediad at gymorth yn ôl yr angen.
- Ategu'r agenda Cefnogaeth Weithredol sy'n hyrwyddo annibyniaeth - datblygu Fflat Byw'n Annibynnol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer dysgu sgiliau bywyd ac asesu potensial y person i fyw'n annibynnol.
- Darparu llety argyfwng i liniaru problemau sy'n codi o berthynas neu leoliad yn chwalu.
- Datblygu cefnogaeth wedi'i dargedu, sy'n cael ei arwain gan ddeilliannau ac sy'n hyblyg er mwyn oedi neu'n atal pobl rhag symud i lefel uwch o gefnogaeth, yn enwedig y rhai sydd ag Awtistiaeth, Asperger, problemau Iechyd Meddwl neu Dementia.
- Mae Gwasanaethau Oedolion yn datblygu 8 uned o dai â chymorth ym Meirionnydd yng Ngwynedd. Dylai 6 o'r rhain fod yn llety hunangynhaliol gyda 1 yn dŷ a rennir i ddau berson gydag anghenion uchel. Disgwylir y bydd hwn yn agor ym mis Mawrth 2015.

## **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

Mae gwybodaeth monitro ac adolygu wedi adnabod yr angen i sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn gymwys i dderbyn arian Cefnogi Pobl. Mae Cefnogi Pobl a Gwasanaethau Oedolion yn gweithio mewn partneriaeth i ymdrin ag unrhyw anghydraddoldebau mewn arian Cefnogi Pobl.

Mae Cynllun Arbedion Effeithlonrwydd Pedair Blynedd 2014 – 18 wedi ei gytuno ac yn cael ei weithredu. Er hyn, golyga'r lefel ddisgwylidig o doriadau i gyllideb CP y bydd rhaid adolygu'r arbedion rhagamcaol.

***Bydd rhaid i unrhyw flaenoriaethau comisiynu newydd gael eu hariannu o'r arian sydd dros ben yn y Cynllun Arbedion Effeithlonrwydd ar ôl clustnodi arian i wneud i fyny am y toriad mewn arian grant.***

Dangosodd Mapio Anghenion a'r DP bod posib rheoli'r galw am lety â chefnogaeth a dangosodd y data a gasglwyd gan wefan [www.daffodilcymru.org.uk](http://www.daffodilcymru.org.uk) rhwng 2013 - 2020 y bydd nifer y bobl gydag anabledd dysgu wedi cynyddu o 2,316 i 2,394. Er hynny, bydd unrhyw ddadfuiddsoddiad buan / cyfredol mewn darpariaeth yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau gwaelodlin y Gwasanaeth Cymdeithasol. Gwelodd yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb fod y rhai sy'n gymwys yn derbyn pecynnau cefnogi sydd â chost gymharol uchel. Gall gostyngiad mewn gwasanaethau i bobl gydag **Anabledd Dysgu** olygu bod yn rhaid talu am y gefnogaeth o'r cyllidebau Gofal Cymdeithasol neu Iechyd. Argymhellir bod dad-fuiddsoddiad yn un graddol dros gyfnod o 5 mlynedd i gyd-fynd â'r gostyngiad i'r dyraniad grant CP.

## **Pobl â phroblemau Iechyd Meddwl**

<b>Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai</b>
Gwasanaethau Cymdeithasol – 22 o unedau o Cefnogaeth Symudol  Anheddau – 9 uned o Cefnogaeth Symudol Anheddau – 3 uned o dai a rennir  Allied Homecare – 2 uned o Cefnogaeth Symudol
<b>Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Cynyddu'r cymorth fel bo'r angen</li><li>▪ Datblygu llety deiliadaeth sengl</li><li>▪ Yr angen am lety arbenigol gyda chefnogaeth sy'n llenwi'r bwlch rhwng adferiad dwys a byw yn y gymuned</li><li>▪ Angen ystyried rôl tai a rennir o ran natur amrywiol y grŵp cleient</li><li>▪ Adnabod anghenion cefnogi pobl sy'n dangos arwyddion cynnar Dementia neu Glefyd Alzheimer.</li></ul>
<b>Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)</b>
Mapio anghenion a'r DP yn dangos galw isel yn lleol am wasanaethau. Er hynny, mae'r wefan <a href="http://www.daffodilcymru.org.uk">www.daffodilcymru.org.uk</a> yn dangos y bydd nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cynyddu o tua 6% hyd at 2030. Mae'r effaith ganlyniadol a gaiff y grŵp defnyddwyr gwasanaeth hwn ar wasanaethau iechyd, yr heddlu, digartrefedd, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig wedi'u cofnodi. Byddai dadfuddsoddiad mewn darpariaeth yn cael effaith negyddol ar gyllidebau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Er hynny, oherwydd y galw cymharol isel am wasanaethau, bydd y grŵp defnyddwyr gwasanaeth hwn yn derbyn canran o leihad mewn arian grant.

## **Pobl â phroblemau Camddefnyddio Sylweddau**

<b>Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai</b>
CAIS - 1 x 4 Uned Symud Ymlaen CAIS – 1 x 5 uned o Cefnogaeth Symudol  NACRO – 8 uned o Cefnogaeth Symudol (Doorstop)
<b>Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cynyddu nifer y llety un person</li><li>• Cynyddu nifer yr unedau cefnogaeth yn ôl yr angen.</li><li>• Datblygu a chynnal gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Ne Gwynedd.</li><li>• Angen cysylltu datblygiadau posib gyda mentrau ariannu eraill e.e. Diogelwch Cymunedol ac ati, iechyd.</li></ul>
<b>Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)</b>

## **Grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel.**

Mapio Anghenion a DP yn dangos fod 44 o bobl angen cefnogaeth. Mae darpariaeth y gwasanaeth wedi ei gyfyngu i 17 uned, wedi eu lleoli yn bennaf yn ardal Bangor a Chaernarfon. Mae'r galw am gefnogaeth yn fwy na'r cyflenwad o 1:3. Mae bwlch mewn darpariaeth nid yn unig o ran nifer ond hefyd o ran lleoliad gwasanaethau drwy Wynedd. Byddai'r gwasanaeth yn elwa o fuddsoddiad parhaus a newydd.

Er mwyn amddiffyn darpariaeth gwasanaethau, argymhellir na ddylai unrhyw ganran o doriadau i'r grant Cefnogi Pobl gael eu pasio ymlaen yn llawn i'r grŵp defnyddiwr gwasanaeth hwn.

Ar ymchwilio dichonolrwydd datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn o ran darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

## **Pobl â Hanes o Droseddu**

### **Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â tai**

NACRO - 4 uned o dai â chymorth

NACRO - 2 uned 'symud ymlaen'

### **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.**

- Dangosodd data o Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (Prawf) ar 04/08/2014, bod statws llety 39 merch a 277 dyn yn 'heb gartref sefydlog', dim ond 58 person wnaeth nodi fod ganddynt gyfeiriad parhaol i ddychwelyd iddo, boed yn hostel, llety rhieni neu lety eu hunain. Y gyfran uchaf o bobl heb gyfeiriad parhaol yw pobl sydd rhwng 18 – 20 mlwydd oed. Gwynedd sydd â'r nifer uchaf o droseddwyd yn byw mewn llety dros dro ar draws Gogledd Cymru.
- Cynyddu nifer y llety â chymorth addas mewn mannau priodol.
- Datblygu clwstwr bychan o unedau hunangynhaliol gyda mynediad i Weithwyr Cefnogol wedi'i leoli ar y safle.
- Cynyddu nifer y tai â chymorth a rennir, ble bo'n briodol.
- Cynyddu argaeledd cefnogaeth yn ôl yr angen.
- Er mwyn cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) – parhau i gryfhau'r gefnogaeth drosglwyddo i bobl sy'n gadael y carchar gael mynediad i dai, gwybodaeth / cyngor, cefnogaeth ac adsefydlu.
- Mae angen cryfhau'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mentrau sy'n arbenigo mewn ceisio cyflogaeth e.e. Working Links, Cymunedau'n Gyntaf.
- Ystyried yr effaith y bydd y carchar newydd yn Wrecsam yn ei chael ar ein gwasanaethau lleol.

### **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

## **Grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel iawn.**

Mapio Anghenion a DP yn dangos bod 39 o bobl angen cefnogaeth. Darpariaeth y gwasanaeth wedi ei gyfyngu i 6 uned, wedi eu lleoli yn bennaf yn ardal Bangor a Chaernarfon. Mae'r galw am gymorth yn uwch na'r cyflenwad o 1:7 (nid yw hyn yn cynnwys y data o'r Gwasanaeth CRC). Mae bwlch yn y ddarpariaeth, nid yn unig yn y niferoedd ond yn lleoliad y gwasanaethau drwy Wynedd. Byddai'r gwasanaeth yn elwa o

fuddsoddiad parhaus a newydd.

Darpariaeth gwasanaeth isel iawn ac mae galw sylweddol am y gwasanaeth. Byddai'n elwa o fuddsoddiad newydd i gynyddu darpariaeth gwasanaethau ac asesiad o'r farchnad i adnabod darparwyr newydd posib yn yr ardal hon.

Er mwyn amddiffyn darpariaeth gwasanaethau, argymhellir na ddylai unrhyw ganran o doriadau i'r grant Cefnogi Pobl gael eu pasio ymlaen yn llawn i'r grŵp defnyddiwr gwasanaeth hwn.

Ar ymchwilio dichonolrwydd datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn o ran darparu gwasanaethau camdefnyddio sylweddau.

### **Pobl ag Anabledd Corfforol a/neu Synhwyrdd**

#### **Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

Uned Ddarparu'r Cyngor – 3 uned o Cefnogaeth Symudol  
Cartrefi Cymru – 1 uned o Cefnogaeth Symudol

#### **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol**

- Gwasanaeth cymorth siopa
- Tai gydag addasiadau priodol
- Diffyg cyswllt gyda gwasanaethau statudol
- Datblygu tai gydag addasiadau priodol (Gofal Ychwanegol)

#### **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

Er bod y gwasanaethau yn cwrdd â'r holl feini prawf, ar hyn o bryd ac yn hanesyddol, galw cyfyngedig fu am y gwasanaeth. O'r herwydd ni ystyrir fod y gwasanaethau'n faes blaenoriaeth ac mae'r data presennol yn cefnogi'r penderfyniad hwn.

### **Salwch Cronig**

#### **Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

*Body Positive* – mae 'prosiect peilot' rhanbarthol ar waith ar hyn o bryd tan fis Mawrth 2016.

#### **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol**

- Dim anghenion llety ar gyfer y dyfodol wedi'u hadnabod ar hyn o bryd.
- Sicrhau y cynhelir cysylltiadau gydag Iechyd, er mwyn monitro'r galw ac anghenion yn y dyfodol.

#### **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

Ychydig iawn o alw sydd wedi bod am y gwasanaeth (naw defnyddiwr gwasanaeth rhwng Ebrill 2012 – Rhagfyr 2012). O ganlyniad, ni ystyrir fod y gwasanaethau yn faes blaenoriaeth yn y Cynllun Strategol Lleol.

## Rhai sy'n Gadael Gofal

<b>Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai</b>
Gweithredu dros Blant – Llwyth achos o 17 (ym mis Ebrill 2013). Mae'r prosiect hwn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2015.
<b>Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd 104 o Rai oedd wedi Gadael Gofal yn derbyn gwasanaeth yn 2013/14.</li><li>• Mae 36 o 'Blant mewn Angen' ychwanegol fydd o bosib angen llety â chymorth ar ryw bwynt.</li><li>• Mae angen ystod o opsiynau cefnogol sy'n darparu gwasanaethau ar draws y Sir.</li><li>• Negyddu effaith y newidiadau i'r System Les, yr angen i ddatblygu llety fforddiadwy h.y. llety sengl un llofft .</li><li>• Mwy o bobl ifanc a chanddynt amryw o anghenion, ac angen chefnogaeth ddwys.</li><li>• Angen mwy o gymorth lefel isel fel bo'r angen</li><li>• Mae prinder Gofalwyr Maeth ar gyfer pobl 16/17 oed, sy'n golygu bod pobl ifanc yn cael eu lleoli mewn llety yn hytrach nag mewn lleoliadau maeth.</li><li>• O ganlyniad, mae pobl ifanc yn gadael y system ofal heb sgiliau digonol i allu byw'n annibynnol.</li></ul>
<b>Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)</b>
<p>O fis Ebrill 2015 ni fydd yna wasanaeth pwrpasol a ariennir trwy Cefnogi Pobl i Rai sy'n Gadael Gofal.</p> <p>Mae bwlch yn y ddarpariaeth, nid yn unig yn y niferoedd ond mewn lleoliadau trwy'r Sir. Byddai'r gwasanaeth yn elwa o fuddsoddiad parhaus a newydd.</p> <p>Fodd bynnag, gan y bydd cyllid Cefnogi Pobl yn lleihau yn y tymor byr, mae datblygu unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth newydd yn amodol ar sicrhau cyllid newydd neu ailfodelu gwasanaethau presennol yn unol â'r angen strategol.</p>

## Pobl Ifanc ag Anghenion Cefnogi (16 – 24)

<b>Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai</b>
GISDA – 26 x uned mynediad uniongyrchol GISDA – 16 uned o Cefnogaeth Symudol
Cyfle – 5 uned o Cefnogaeth Symudol Cyfle – 2 uned Cefnogaeth Symudol
<b>Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Yr angen i adeiladu ar yr ystod gyfredol o opsiynau cefnogol, sy'n darparu gwasanaethau trwy'r Sir ac yn cwrrdd ag angen cynyddol h.y. canolfannau gwybodaeth 'galw i mewn', unedau symudol, Foyers neu rannu tŷ.</li><li>▪ Datblygu llety arhosiad byr mewn argyfwng, gan ganolbwyntio ar ddychwelyd gartref neu at y teulu estynedig pan fo hynny'n ddiogel ac yn briodol.</li><li>▪ Ystyried datblygu gwasanaeth o fath 'Nightstop' sy'n cynnig llety dros dro tymor byr i'r rheini sydd ag anghenion cefnogi isel.</li><li>▪ Negyddu effaith y newidiadau i'r System Les, yr angen i ddatblygu llety</li></ul>

- fforddiadwy h.y. llety sengl un llofft, gyda chefnogaeth lefel isel/canolig.
- Mwy o bobl ifanc a chanddynt amryw o anghenion ac sydd angen cefnogaeth ddwys, yn y lleoliad mwyaf priodol.
- Mae angen mwy o gefnogaeth lefel isel fel bo'r angen, i gynnal neu atal y perygl o ddigartrefedd.
- Mae angen cryfhau'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mentrau sy'n arbenigo mewn ceisio cyflogaeth e.e. Working Links, Cymunedau'n Gyntaf.
- Cynyddu'r defnydd o wasanaethau cymodi teulu arbenigol.

**Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

**Grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel iawn.**

Mae Mapio Anghenion a DP yn dangos y cyfeiriwyd 320 o bobl oedd angen cefnogaeth. Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth wedi'i chyfyngu i 49 uned sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn ardaloedd Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Dolgellau.

Mae'r gymhareb 'cymorth ar gael : galw am gymorth' yn 1:7.

Mae bwlch yn y ddarpariaeth, nid yn unig yn y niferoedd ond hefyd o ran lleoliad, yn enwedig yn ardal Bangor a Phwllheli.

Byddai'r gwasanaeth yn elwa o fuddsoddiad parhaus a newydd.

Fodd bynnag, gan ei bod yn debygol y bydd y cyllid yn lleihau yn y tymor byr, mae'n rhaid i wasanaethau geisio rhesymoli'r ddarpariaeth ac ystyried ailfodelu i gael mwy o hyblygrwydd a theilwra cefnogaeth yn unol â'r angen strategol.

Cefnogaeth Symudol

**Teuluoedd Rhieni Sengl sydd ag Anghenion Cefnogi**

**Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

GISDA – 12 uned o Cefnogaeth Symudol

GISDA – 8 uned Tai â Chymorth

Gorwel – 2 uned tai â chymorth

**Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol**

- Darparu gwasanaeth larwm i unigolion bregus iawn.
- Yr angen am lety mwy priodol a fforddiadwy i 'symud ymlaen' iddo.
- Yr angen am lety math hostel i rieni sengl, sydd wedi'i leoli'n agos at gyfleusterau lleol ac sy'n arbenigo mewn sgiliau rhiantu yn ogystal â chefnogaeth tai.
- Adnabod llety fforddiadwy all negyddu effaith y newidiadau i'r System Les.
- Yr angen i gryfhau cysylltiadau gydag asiantaethau a mentrau sy'n arbenigo mewn cefnogi plant a theuluoedd e.e. Gwynedd Ni, Cwlwm (Cymodi Teuluoedd).
- Yr angen i ddatblygu Prosiectau Ymyrraeth Teulu sy'n cefnogi'r teulu cyfan yn hytrach nag unigolyn.

**Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

**Grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel iawn.**

Mae Mapio Anghenion a DP yn dangos y cyfeiriwyd 240 o bobl oedd angen cefnogaeth.

Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth wedi'i chyfyngu i 22 uned sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn ardaloedd Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog, Pwllheli a Dolgellau.  
 Mae'r gymhareb 'cymorth ar gael : galw am gymorth' yn 1:11.  
 Mae bwlch yn y ddarpariaeth, nid yn unig yn y niferoedd ond hefyd o ran lleoliad, yn enwedig yn ardal Bangor a Phwllheli.  
 Byddai'r gwasanaeth yn elwa o fuddsoddiad parhaus a newydd.  
 Fodd bynnag, gan ei bod yn debygol y bydd y cyllid yn lleihau yn y tymor byr, mae'n rhaid i wasanaethau geisio rhesymoli'r ddarpariaeth ac ystyried ailfodelu i gael mwy o hyblygrwydd a theilwra cefnogaeth yn unol â'r angen strategol.

**Pobl Sengl sydd ag Anghenion Cefnogi na restrir uchod, 25 – 54 mlwydd oed (Digartref neu'r posibilrwydd o fod yn ddigartref)**

**Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

Cyngor Gwynedd – 1 x Llety Dros Dro a Rennir (8 gwely)

Cyngor Gwynedd – 1 x Llety Dros Dro a Rennir (5 gwely)

Cymdeithas Tai Gogledd Cymru – 1 x Llety Dros Dro a Rennir (12 gwely)

CTGC – 1 x Llety Dros Dro a Rennir (8 gwely)

CTGC – 32 uned o Cefnogaeth Symudol

Grŵp Cynefin – 12 uned o Cefnogaeth Symudol Cefnogaeth Symudol

Gorwel – 1 x tŷ â chymorth 4 gwely

Gorwel – 4 uned o Cefnogaeth Symudol

Agorfa Cyf. – 3 uned o Cefnogaeth Symudol

**Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.**

- Mae llety hostel tymor byr i bobl mewn argyfwng yn brin, nid yw bob tro wedi'i lleoli'n lleol, ac yn aml dim ond cefnogaeth gyfyngedig sydd ar gael ynddynt oherwydd bod y person ond yno am gyfnod byr. Mae angen nifer benodol o unedau llety â chymorth sengl/a rennir (gyda chyfleusterau cymunedol) mewn amryw o leoliadau trwy Wynedd. Mae hyn yn peri heriau sylweddol o ran trefnu gwasanaethau fel eu bod yn ymatebol i anghenion newidiol ystod o grwpiau defnyddwyr.
- Ystyried datblygu Lloches Nos.
- Efallai y bydd mwy o ofyn i sefydliadau sy'n darparu gyflwyno eu gwasanaethau i ystod o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth mewn un ardal.
- Dim darpariaeth i bobl sy'n gwrthod rhoi'r gorau i yfed e.e. 'wet house' neu gymryd cyffuriau nad ydynt wedi'u rhagnodi.
- Moderneiddio llety 'byw a chysgu' sy'n bodoli.
- Ystyried darpariaeth Larwm i'r rheini sy'n fregus iawn.
- Cynyddu'r ymyraethau ataliol cyn i bobl fynd yn ddigartref.
- Datblygu gwasanaeth cymorth cyffredinol sy'n cynnig cymorth lefel isel fel bo'r angen, er mwyn cadw gafael ar denantiaeth neu atal y bygythiad o ddigartrefedd.
- Sicrhau bod Darparwyr a Defnyddwyr Gwasanaeth yn ymwneud yn llawn â'r Tîm Opsiynau Tai er mwyn darparu mynediad i lety 'symud ymlaen'.
- Y prif grŵp sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref yw rhai 16-24 oed.



- Mae gorfodi Sancsiynau a rhenti Ystafell Sengl ar bobl sy'n iau na 35 mlwydd oed yn rhoi mwy o bwysau ar fforddiadwyedd llety.
- Mae galw am fwy o dai sy'n fforddiadwy ac yn briodol i'r angen.
- Mae angen adeiladu ar yr ystod gyfredol o opsiynau cefnogol, sy'n darparu gwasanaethau trwy'r Sir h.y. mwy o ganolfannau gwybodaeth 'galw i mewn', unedau gwybodaeth symudol.
- Mae angen addysgu pobl ifanc i fod yn realistig ynghylch yr hyn sydd ar gael a beth sy'n fforddiadwy. Ystyried datblygu prosiectau rhannu tŷ.
- Datblygu llety arhosiad byr mewn argyfwng, gan ganolbwyntio ar ddychwelyd adref neu at y teulu estynedig pan fo hynny'n ddiogel ac yn briodol.
- Ystyried datblygu gwasanaeth o fath '*Nightstop*' sy'n cynnig llety dros dro tymor byr i'r rheini sydd ag anghenion cefnogi isel.
- Negyddu effaith y newidiadau i'r System Les, yr angen i ddatblygu llety fforddiadwy h.y. llety sengl un llofft, gyda chefnogaeth lefel isel/canolig.
- Mwy o bobl ifanc a chanddynt amryw o anghenion ac sydd angen cefnogaeth ddwys, yn y lleoliad mwyaf priodol.
- Mae angen cryfhau'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mentrau sy'n arbenigo mewn ceisio cyflogaeth e.e. Working Links, Cymunedau'n Gyntaf.
- Cynyddu'r defnydd o wasanaethau cymodi teulu arbenigol.
- Mae pobl ddi-waith 25+ mlwydd oed yn ei chael yn anodd cael mynediad at lety 'symud ymlaen' a gallu fforddio llety o'r fath e.e. yn aml nid oes ganddynt ddigon o bwyntiau tai i sicrhau'r cynnig o denantiaeth, neu nid yw'r Budd-dal Tai yn ddigon i dalu'r gost o rentu'r eiddo.
- Ymddengys bod angen am gefnogaeth lefel isel fel bo'r angen i bobl sydd â mân anabledau dysgu.

Yn ystod adolygiadau gwasanaeth nodwyd ei bod yn ymddangos bod mwy nag un darparwr cefnogaeth yn darparu cefnogaeth fel bo'r angen yn yr un ardal. Amlygodd hyn yr angen posib am gymorth cyffredinol lefel isel fel bo'r angen, y gall darparwyr sengl ei ddarparu mewn ardaloedd daearyddol penodol. Hwyrach y byddai'r model hwn o gyflwyno gwasanaeth yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol a chost-effeithlon yn y tymor hwy.

### **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

#### **Grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel.**

Mae Mapio Anghenion a DP yn dangos y cyfeiriwyd 356 o bobl oedd angen cefnogaeth. Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth wedi'i chyfyngu i 88 uned sydd wedi'u lleoli yng Nghorris, Deiniolen, Bangor, Pwllheli, Dolgellau a'r ardaloedd o amgylch. Mae'r gymhareb 'cymorth ar gael : galw am gymorth' yn 1:4. Byddai'r gwasanaeth yn elwa o fuddsoddiad parhaus a newydd. Fodd bynnag, gan ei bod yn debygol y bydd y cyllid yn lleihau yn y tymor byr, mae'n rhaid i wasanaethau geisio rhesymoli'r ddarpariaeth ac ystyried ailfodelu i gael mwy o hyblygrwydd a theilwra cefnogaeth yn unol â'r angen strategol.

**Pobl dros 55 mlwydd oed sydd ag anghenion cefnogi** (rhaid i'r categori hwn eithrio gwasanaethau larwm)

#### **Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

Abbeyfield – 2 uned o ddarpariaeth â chefnogaeth warden

Age Concern – 20 uned o Cefnogaeth Symudol

Grŵp Cynefin (Clwyd) - 19 uned o ddarpariaeth â chefnogaeth warden

Grŵp Cynefin (Clwyd) – 30 uned Tai Gofal Ychwanegol, y Bala

Grŵp Cynefin (Eryri) - 40 uned o ddarpariaeth â chefnogaeth warden

CTGC – 26 uned o ddarpariaeth â chefnogaeth warden

CTGC – 40 uned Tai Gofal Ychwanegol, Bangor (ddim yn weithredol tan fis Rhagfyr, 2014)

Polish Housing Ltd – 31 uned o ddarpariaeth â chefnogaeth warden

Cyngor Gwynedd – 5 uned o Cefnogaeth Symudol

Cartrefi Cymunedol Gwynedd – 240 uned o ddarpariaeth â chefnogaeth warden

**Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.**

- Mae canllawiau Cefnogi Pobl yn argymhell bod darpariaeth gwasanaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn symud tuag at wasanaethau sy'n 'seiliedig ar anghenion' yn hytrach na 'seiliedig ar ddaliadaeth', ac mae hwn yn faes sydd eisoes yn y broses o newid, gyda rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu cynlluniau peilot 'seiliedig ar anghenion'.
- Mae gwaith ymchwil a wnaed yn lleol yn amlygu (i) nad yw pobl hŷn yn y gymuned yn dymuno mynd i mewn i ofal preswyl (er mwyn gwarchod preifatrwydd, gofod personol a rheolaeth o'u bywyd) a (ii) bod y rhan fwyaf o'r genhedlaeth nesaf o bobl hŷn (y grŵp oedran 50-60 ar hyn o bryd) eisiau cael addasu eu cartrefi eu hunain neu symud i fyngalo (dwy ystafell wely) pe bai ganddynt broblemau iechyd corfforol. Mae ymchwil cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru '*Gofynion tai, gofal cartref a chefnogaeth sy'n gysylltiedig ag oedran pobl hŷn yng Nghymru – Mai 2003*' yn rhagweld cynnydd o 12% yn y bobl oed ymddeol yn awdurdodau Gogledd Cymru rhwng 1998 a 2021.
- Mae'r prif ddarparwr llety gwarchod yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae llety gwarchod wedi gwella ac mae rhai unedau wedi cael eu newid o lety un gwely i lety dau wely.
- Moderneiddio a datblygu rôl y warden i fod yn rôl cefnogi/gofal mwy peripatetig. Mae un Darparwr eisoes wedi treialu gwasanaeth Warden Peripatetig, oedd yn cynnig y gwasanaeth i bobl fregus yn byw mewn tai cyffredinol yn ogystal ag i rai mewn rhaglenni gwarchod. Fodd bynnag, oherwydd y lleihad mewn arian grant, mae hyn wedi'i roi i'r naill ochr er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth presennol yn cynnal tenantiaid mewn llety gwarchod.
- Parhau i ddatblygu ac ariannu'r symudiad tuag at dai gofal ychwanegol h.y. Cefnogi Pobl i wneud cyfraniad ariannol tuag at gost Rheolwr y Cynllun a'r ddarpariaeth Larwm.
- Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth byngalos 1 a 2 ystafell wely.

- Parhau i ariannu cymorth fel bo'r angen yng nghyswllt cymorth siopa, cynnal a chadw tenantiaethau gyn hired â phosib.
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau cryf a gwaith partneriaeth gydag asiantaethau eraill h.y. Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd ac Age Cymru.

### **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

Mae Mapio Anghenion a DP yn dangos lefel gymharol isel o alw am wasanaethau, gyda chyflenwad digonol ar gyfer y galw presennol. Dangosodd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb lefel risg ganolig i Bobl Hŷn pe bai'r cyllid yn cael ei leihau. Mae darpariaeth y gwasanaeth ar ffurf Llety Gwarchod yn bennaf gyda gwasanaethau Warden a Larwm Cymunedol. Mae hefyd ymrwymiad ariannol gan Cefnogi Pobl i gyfrannu tuag at gost Rheolwyr Cynllun ar gyfer Cynlluniau Gofal Ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r flaenoriaeth gymharol isel yn nhermau arian grant Cefnogi Pobl yn peri risg i'r gwasanaeth gael ei gwtogi'n ddifrifol dros y ddwy flynedd nesaf. Byddai'n elwa o fuddsoddiad parhaus i gynnal y ddarpariaeth bresennol.

### **Cefnogaeth Gyffredinol/Fel bo'r Angen/Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n ymdrin ag ystod o anghenion defnyddwyr)**

#### **Gwasanaethau a darpariaeth gyffredol sy'n gysylltiedig â thai**

Cyngor Gwynedd – 120 uned o Cefnogaeth Symudol bob blwyddyn (Cefnogaeth Denantiaeth)

Cartrefi Cymunedol Gwynedd – 118 uned o Cefnogaeth Symudol bob blwyddyn (Cefnogaeth Denantiaeth)

Shelter – 14 uned o Cefnogaeth Symudol

#### **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.**

- Galw cynyddol am Gefnogaeth Denantiaeth yn y sector preifat – mae gwasanaeth Cefnogi Tenantiaeth Cyngor Gwynedd wedi datblygu prosiect peilot yn ardal Dwyfor / Meirionnydd sy'n darparu cefnogaeth yn gysylltiedig â thai i denantiaid preifat. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn i gychwyn a bydd yn cael ei werthuso ar ddiwedd 2014/15. Nid oes cyllid ychwanegol wedi'i roi i'r peilot, ac mae ehangiad y gwasanaeth yn cael ei ymgorffori yn y gyllideb bresennol.
- Mae data gan *Intercultural Skills Link* yn awgrymu bod galw anferth am gyngor yn gysylltiedig â Budd-daliadau, Tai, Cyflogaeth a Dyled – dyma'r prif ymholiadau mae'n eu derbyn. Roedd 502 o ymholiadau newydd yn ystod y cyfnod Hydref 2012 – Medi 2013.

### **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

Roedd y wybodaeth Monitro Perfformiad a dderbyniwyd gan Shelter Cymru yn dangos

cymhareb uchel iawn o alw o'i gymharu â'r cyflenwad h.y. am bob uned gefnogaeth roedd yna 8 o gyfeiriadau oedd angen cefnogaeth yn 2013/14. Mae hyn yn cymharu gyda chymhareb o 1:6 yn 2011/12.

Roedd disgwyl i'r newidiadau i'r System Les roi pwysau pellach ar denantiaid, ac mae'r cynnydd uchod yn y galw i'w weld yn adlewyrchu'r duedd hon.

Wrth i'r newidiadau i'r System Les barhau i effeithio ar allu pobl i gadw eu tenantiaethau, byddai'r gwasanaeth yn elwa o fuddsoddiad parhaus a newydd. Dylid lleihau unrhyw doriadau i arian grant hyd yr eithaf.

## **Gwasanaethau Larwm** (yn cynnwys llety Gwarchod a Gofal Ychwanegol)

### **Gwasanaethau a darpariaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â thai**

Abbeyfield – 2 uned o ddarpariaeth larwm

Grŵp Cynefin (Clwyd) - 39 uned o ddarpariaeth larwm

Grŵp Cynefin (Clwyd) – 30 uned o ddarpariaeth larwm Tai Gofal Ychwanegol, y Bala

Grŵp Cynefin (Eryri) - 141 uned o ddarpariaeth larwm

CTGC – 91 uned o ddarpariaeth larwm

CTGC – 40 uned o ddarpariaeth larwm Tai Gofal Ychwanegol, Bangor (ddim yn weithredol tan fis Rhagfyr, 2014)

Polish Housing Ltd – 31 uned o ddarpariaeth larwm

Cartrefi Cymunedol Gwynedd – 472 uned o ddarpariaeth larwm

### **Bylchau yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth – anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd, ac anghenion tai a chefnogaeth tebygol yn y dyfodol.**

- Mae canllawiau Cefnogi Pobl yn argymhell bod darpariaeth gwasanaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn symud tuag at wasanaethau sy'n 'seiliedig ar anghenion' yn hytrach na 'seiliedig ar ddaliadaeth', ac mae hwn yn faes sydd eisoes yn y broses o newid, gyda rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu cynlluniau peilot 'seiliedig ar anghenion'.
- Parhau i ddatblygu ac ariannu'r symudiad tuag at dai gofal ychwanegol h.y. Cefnogi Pobl i wneud cyfraniad ariannol tuag at gost Rheolwr y Cynllun a'r ddarpariaeth Larwm.
- Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth byngalos un a dwy ystafell wely, gyda ddarpariaeth larwm.
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau cryf a gwaith partneriaeth gydag asiantaethau eraill h.y. Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Teleofal ac Age Cymru.
- Darparwyr i weithio tuag at sicrhau bod systemau cyfredol yn gydnaws â'r dechnoleg newydd.

## **Bwriadau Comisiynu / Dad-gomisiynu (Meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt)**

Mae Mapio Anghenion a DP yn dangos lefel gymharol isel o alw am wasanaethau, gyda chyflenwad digonol ar gyfer y galw presennol. Dangosodd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb lefel risg ganolig i Bobl Hŷn pe bai'r cyllid yn cael ei leihau. Mae darpariaeth y gwasanaeth ar ffurf Llety Gwarchod yn bennaf gyda gwasanaethau Warden a Larwm Cymunedol. Mae hefyd ymrwymiad ariannol gan Cefnogi Pobl i gyfrannu tuag at gost Rheolwyr Cynllun ar gyfer Cynlluniau Gofal Ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r flaenoriaeth gymharol isel yn nhermau arian grant Cefnogi Pobl yn peri risg i'r gwasanaeth gael ei gwtogi'n ddifrifol dros y ddwy flynedd nesaf. Byddai'n elwa o fuddsoddiad parhaus i gynnal y ddarpariaeth bresennol.

## **Atodiad 2**

### **Crynodeb o Ddeilliannau i'r Rhai Sy'n Gadael y Gwasanaeth (Gwasanaeth yn Dod i Ben)**

#### **Prif Angen**

<b>Grŵp Cleient</b>	
Trais Domestig (merched)	203
Pobl Ifanc	158
Cefnogaeth Gyffredinol / Fel bo'r Angen	124
Rhieni Sengl	68
Pobl dros 55 mlwydd oed	40
Iechyd Meddwl	35
Pobl gydag anabledd corfforol	34
Problemau alcohol	29
Problemau camddefnyddio sylweddau	24
Trais Domestig (dynion)	23
Gwasanaethau larwm	19
Cyn-droseddwy	14
Rhai sy'n Gadael Gofal	14
Teuluoedd gydag Anghenion Cefnogaeth	12
Pobl Sengl 25 – 54 mlwydd oed	9
Anabledd dysgu	8
Salwch cronig	1

#### **Cynnydd a Wnaed ym mhob Maes Deilliant**

<b>Maes Deilliant</b>	<b>Nifer y defnyddwyr gwasanaeth y mae'n broblem iddynt</b>	<b>Canran Uchaf</b>	<b>Lefel a Gyrhaeddwyd</b>
<b>Teimlo'n ddiogel</b>	<b>546</b>	<b>27%</b>	<b>Cam 5 – Wedi cynyddu annibyniaeth i'r eithaf</b>
<b>Rheoli llety</b>	<b>665</b>	<b>25%</b>	<b>Cam 4 – Cyflawni trwy Gefnogaeth</b>
<b>Rheoli perthnasau</b>	<b>374</b>	<b>27%</b>	<b>Cam 3 – Yn gweithio tuag</b>

			<b>at y nodau</b>
<b>Teimlo'n rhan o'r gymuned</b>	<b>302</b>	<b>38%</b>	<b>Cam 5 – Wedi cynyddu annibyniaeth i'r eithaf</b>
<b>Rheoli arian</b>	<b>556</b>	<b>30%</b>	<b>Cam 5 – Wedi cynyddu annibyniaeth i'r eithaf</b>
<b>Iechyd corfforol</b>	<b>344</b>	<b>27%</b>	<b>Cam 3 – Yn gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Iechyd meddwl</b>	<b>322</b>	<b>33%</b>	<b>Cam 3 – Yn gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Byw Bywyd iach ac Egniol</b>	<b>346</b>	<b>32%</b>	<b>Cam 3 – Yn gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Diogelwch a lles eich hun ac eraill</b>	<b>504</b>	<b>24%</b>	<b>Cam 3 – Yn gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Addysg a Dysgu</b>	<b>217</b>	<b>30%</b>	<b>Cam 3 – Yn gweithio tuag at y nodau</b>
<b>Gwirfoddoli a Chyflogaeth</b>	<b>240</b>	<b>32%</b>	<b>Cam 3 – Yn gweithio tuag at y nodau</b>

Mae gwybodaeth a gafwyd o'r data ynghylch y deilliannau ar ddiwedd y gwasanaeth yn cadarnhau mai'r prif anghenion oedd trais domestig, pobl ifanc a chefnogaeth gyffredinol (digartrefedd). Gweler Atodiad 2.

Roedd y mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth angen cefnogaeth gyda:

- Rheoli llety
- Rheoli arian
- Teimlo'n ddiogel
- Eu diogelwch a lles eu hunain ac eraill

Y mater lleiaf pwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth oedd addysg a dysgu.

Roedd y cynnydd a wnaed ym mhob maes deilliant yn cadarnhau bod defnyddwyr gwasanaeth wedi cyrraedd cam 3 – yn gweithio tuag at eu nodau mewn 7 maes cefnogaeth, wedi cyrraedd cam 4 – cyflawni trwy gefnogaeth mewn 1 maes a cham 5 – wedi cynyddu annibyniaeth i'r eithaf yn y 3 maes sy'n weddill.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth wedi cyrraedd cam 4 a 5 yn y meysydd oedd wedi dangos yr anghenion cefnogaeth mwyaf – rheoli llety, rheoli arian a teimlo'n ddiogel.